# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 9 a 16 Chwefror 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

28 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

31 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

44 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

44 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â diswyddo Christine Gwyther, y Gweinidog Amaeth, ym mis Gorffennaf 2000? (WAQ40955)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu'n ôl o Ganolfan Ewropeaidd Cymru? (WAQ40956)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth â Whitehall yn ymwneud â chau swyddfeydd yr Asiantaeth Budd-daliadau yng Nghymru? (WAQ40961)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â ffurfio clymblaid Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2000? (WAQ40971)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud ag ymddiswyddiad Tom Middlehurst AC fel Ysgrifennydd Addysg Ôl-16 ym mis Hydref 2000? (WAQ40972)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â diswyddo Peter Law a Rosemary Butler o Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2000? (WAQ40973)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt ceisiadau ar gyfer deddfwriaeth 'Cymru yn unig' yn Araith y Frenhines, bob blwyddyn ers 1999? (WAQ40979)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'i safbwynt ar refferendwm ar bwerau'r Cynulliad? (WAQ40982)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phresenoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y digwyddiadau i gofio D-Day yn Normandi ym mis Mehefin 2004? (WAQ40985)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi Cwnsler Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ40986)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng swyddfa Prif Weinidog Cymru a Phalas Buckingham yn dilyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2004? (WAQ40988)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Whitehall yng nghyswllt cais Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ddydd Gŵyl Dewi fod yn Ŵyl Banc yng Nghymru? (WAQ40995)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinidogaeth Amddiffyn yng nghyswllt datblygu RAF Sain Tathan ym Mro Morgannwg yn y dyfodol? (WAQ41016)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa Prif Weinidog Cymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd? (WAQ41023)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn rhoi manylion y gost o weithredu pob un o '10 prif addewid' y Blaid Lafur yn ystod tymor 2003-2007 y Cynulliad? (WAQ41028)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru gyhoeddi dogfennau yn dangos nifer a chost y tripiau dramor a wnaed gan bob un o Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999? (WAQ41029)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd? (WAQ40944) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi cadeirydd newydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg? (WAQ40987)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â dirwyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben? (WAQ41019)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ynghylch dyfodol yr olaf? (WAQ41021)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Owen John Thomas:** Yn dilyn ei ateb i (WAQ40781), (WAQ40782) a (WAQ40783) a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cwestiynau gwreiddiol neu os na wnaiff, a wnaiff esbonio pam? (WAQ41232)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn datgan na fydd yn cynnal cyngerdd yn Rhydaman, gan mai dim ond mewn lleoliadau mawreddog y mae'n dymuno perfformio? (WAQ45711)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Deallaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru fod camddealltwriaeth yn yr achos hwn wedi arwain at bryderon diangen, ac mai polisi Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yw chwilio'n barhaus am ganolfannau i'w chyngherddau ar sail dosbarthiad daearyddol a maint y canolfannau.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am broblemau cyllido pwll nofio Llandeilo yn ysgol gyfun Tregib? (WAQ45712)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn yr ysgol ac ar gyfer y gymuned. Deallaf fod y Cyngor yn ymgynghori ag ysgol gyfun Tregib a'r gymuned leol am ddatblygu'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar safle'r ysgol fesul cam.

**Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion bras am faint o gyllid cyngor y celfyddydau a wariwyd bob blwyddyn yng ngorllewin Caerfyrddin a De Penfro er mis Mai 2003? (WAQ45743)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Alun Pugh:** Mae cyngor y celfyddydau wedi gwario cyfanswm o £173,496 o gymorth grant a £363,649 o arian Loteri yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Penfro er mis Mai 2003.

Rhoddir dadansoddiad o'r ffigurau isod, fesul blwyddyn ariannol, isod:

**Arian Loteri**

| Enw'r Corff | Cynllun | Bl. Ariannol | Swm y Grant |
|---|---|---|---|
| Fairbrother, Jessa | Grantiau Bach | 2003-04 | £1,000.00 |
| Global Connections | Grantiau Bach | 2003-04 | £2,020.00 |
| McKenny, Kate | Grantiau Bach | 2003-04 | £1,000.00 |
| Span Arts Ltd | Cyfalaf (Loteri) | 2003-04 | £9,748.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clwb Camera Dinbych-y-pysgod a'r Cylch | Cyfalaf (Loteri) | 2003-04 | £2,621.00 |
| | | 2003-04 Total | £16,389.00 |
| Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth | Cymryd Rhan a Chelfyddydau yn y Gymuned | 2004-05 | £40,000.00 |
| Celfyddydau Caerfyrddin | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,000.00 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyfalaf (Loteri) | 2004-05 | £37,224.00 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyfalaf (Loteri) | 2004-05 | £27,750.00 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,520.00 |
| Global Connections | Grantiau Bach | 2004-05 | £1,000.00 |
| Green Ginger | Grantiau Bach | 2004-05 | £4,000.00 |
| Haycock, Marianne | Grantiau Bach | 2004-05 | £1,000.00 |
| Just Good Friends | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,000.00 |
| Le Britton, Pauline | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,500.00 |
| Llais | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,520.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Cynhyrchu a Datblygu Cynulleidfaoedd | 2004-05 | £7,540.00 |
| Pyramid Theatre Company | Grantiau Bach | 2004-05 | £2,000.00 |
| Oriel Queen's Hall | Cyflwyno a Datblygu Cynulleidfaoedd | 2004-05 | £4,020.00 |
| Sand Palace Arts | Grantiau Bach | 2004-05 | £1,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Share Music | Celfyddydau ac Anabledd | 2004-05 | £10,000.00 |
| Span Arts Ltd | Cyflwyno a Datblygu Cynulleidfaoedd | 2004-05 | £18,060.00 |
| Band Pres Dinbych-y-pysgod a'r Cylch | Cyfalaf (Loteri) | 2004-05 | £45,208.00 |
| Gŵyl Gelfyddydau Dinbych-y-Pysgod Cyf. | Grantiau Bach | 2004-05 | £2,520.00 |
| Yr Uned i'r Celfyddydau a Throseddwyr | Grantiau Bach | 2004-05 | £5,000.00 |
| Canolfan Grefftau Gorllewin Cymru | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,020.00 |
| Cyfansoddwr Ifanc Dyfed | Grantiau Bach | 2004-05 | £3,159.00 |
| | | Cyf. 2004-2005 | £229,041.00 |
| Bee Line Community Theatre Company | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £1,500.00 |
| Bower, Ric | Unigolion | 2005-06 | £4,941.00 |
| Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £4,500.00 |
| Côr Llanpumsaint a'r Cylch | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £800.00 |
| Urdd y Brodwyr, Cangen Caerfyrddin | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £250.00 |
| Friends of the Classics | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £1,200.00 |
| Just Good Friends | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £3,000.00 |
| Oriel King Street | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £4,500.00 |
| Llais | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £4,000.00 |
| Theatr y Lyric | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £5,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Cyfalaf (Loteri) | 2005-06 | £36,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £4,950.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Sefydliadau: Prif gyrff | 2005-06 | £11,000.00 |
| Menter Fusnes Sir Benfro | Sefydliadau: Prif gyrff | 2005-06 | £27,244.00 |
| Quaynotes | Cyfalaf (Loteri) | 2005-06 | £2,455.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Small World Theatre Ltd | Sefydliadau: Bach | 2005-06 | £4,955.00 |
| Sutton, Phillip | Unigolion | 2005-06 | £1,924.00 |
| | | Cyf. 2005-06 | £118,219.00 |
| | | Cyfanswm | £363,649.00 |

**Arian Cymorth Grant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arts Care Limited | Refeniw Blynyddol | 2004-05 | £55,527.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Refeniw Blynyddol | 2004-05 | £4,247.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Refeniw Blynyddol | 2004-05 | £3,520.00 |
| Oriel Queen's Hall | Refeniw Blynyddol | 2004-05 | £18,528.00 |
| Oriel Queen's Hall | Refeniw Blynyddol | 2004-05 | £3,520.00 |
| | | **Cyf. 2004-05** | **£85,342.00** |
| Arts Care Limited | Refeniw Blynyddol | 2005-06 | £55,427.00 |
| Arts Care Limited | Refeniw Blynyddol | 2005-06 | £25,000.00 |
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin | Refeniw Blynyddol | 2005-06 | £7,727.00 |
| | | **Cyf. 2005-06** | **£88,154.00** |
| | | **Cyfanswm** | **£173,496.00** |
| **Cyfanswm Grant (Loteri a chymorth grant)** | | | **£537,145.00** |

**Owen John Thomas:** Pa gamau mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd ynghylch diffinio'n fanwl rôl y Dyfarnydd? (WAQ45756) [W]

**Alun Pugh:** Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddiffinio rôl y Dyfarnydd. Wrth gwrs ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch hyn maes o law. Caiff y Pwyllgor Pwnc a'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn y cyfle i drafod y materion yn fanwl.

**Lisa Francis:** Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr i drafod Pencampwriaethau Dŵr Gwyllt y Byd, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r cofnodion ac unrhyw nodiadau o'r cyfarfod hwnnw? (WAQ45784)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi rhoi gwybodaeth ddiweddaru am y sefyllfa yn fy adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon sydd i'r gynnal ar 16 Chwefror.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ40947) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch cymorth i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire? (WAQ40974)
*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â phenodi Prif Weithredwr newydd Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ41015)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trysorlys ynghylch cyllid Ewropeaidd i Gymru yn y dyfodol? (WAQ41017)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, o flwyddyn i flwyddyn, ers creu'r swydd? (WAQ41026)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Canllawiau ar Gwestiynau'r Cynulliad, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ddeunydd cyfathrebu, cofnodion, memoranda, cofnodion o alwadau ffôn sy'n ymdrin ag ymadawiad cynnar Mr Graham Hawker o'i swydd fel Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ41159)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Canllawiau ar Gwestiynau'r Cynulliad, a wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ddeunydd cyfathrebu, copïau o lythyrau, cofnodion o alwadau ffôn sy'n ymwneud ag unrhyw gyfathrebu a fu rhwng ei swyddfa ef a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas â'r data diweddar ar Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd? (WAQ41160)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl wybodaeth gan gynnwys llythyrau, memos ac e-bost mewnol yn y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â rhwng y cyfryw sefydliadau, sy'n ymwneud â'r amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o'r gost o uno WDA gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ41845)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a anfonwyd at yr Adran Masnach a Diwydiant ac a ddaeth i law oddi wrth yr Adran ynghylch trosglwyddo swyddogaethau'n ymwneud â chynhyrchu ynni sy'n fwy na 50 megawat? (WAQ41913)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi pob papur, memo, llythyr a chofnod o sgyrsiau ffôn rhwng ei swyddfa ef, gan gynnwys Gweinidogion, staff a chynghorwyr arbennig, ac Awdurdod Datblygu Cymru, a hynny ynghylch trosiant staff ac uwch-reolwyr Awdurdod Datblygu Cymru fesul blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ42098)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi gohebu gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach ynglŷn ag effaith Yswiriant Atebolrwydd Gorfodol y Cyflogwr ar fentrau bychan a chanolig eu maint, ac os ydyw, a wnaiff ddatgelu'r ohebiaeth? (WAQ42858)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatgelu unrhyw ohebiaeth y mae wedi'i chael ers 1999 ynglŷn ag effaith Yswiriant Atebolrwydd Gorfodol y Cyflogwr ar fusnesau bach a chanolig eu maint? (WAQ42859)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff ddatgelu unrhyw ohebiaeth y mae wedi ei chael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar unrhyw drafodaethau sy'n ymwneud ag Yswiriant Atebolrwydd Gorfodol y Cyflogwr? (WAQ42861)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â rheol cymorth gwladol yn Ewrop, ac a wnaiff ddatgelu unrhyw ohebiaeth? (WAQ42891)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda swyddogion yn Ewrop ynglŷn â pholisi a rheolau cymorth gwladol, ac a wnaiff ddatgelu unrhyw ohebiaeth? (WAQ42892)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi cwmnïau Cymru sydd am sefydlu a diogelu hawliau eiddo deallusol? (WAQ45709)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ45708 a gyflwynwyd ar gyfer 1 Chwefror 2006.

**Alun Cairns:** Pa gefnogaeth mynediad ychwanegol y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei darparu i gwmnïau KB4B ar gyfer cyfalaf mentro? (WAQ45710)

**Andrew Davies:** Dros y misoedd diwethaf mae swyddogion KB4B wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda nifer o gyfalafwyr menter ac eraill am y posibilrwydd o sefydlu un neu fwy o gronfeydd ecwiti a allai weithredu yng Nghymru. Byddai cronfeydd o'r fath o fudd i gleientiaid KB4B a chwmnïau eraill sydd â photensial twf mawr. Mae'r swyddogion yn bwrw ymlaen â hyn a byddaf yn darparu rhagor o fanylion pan fydd y trafodaethau wedi mynd ymhellach.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ganran o'r cyllid a ddaw o Amcan 1, 2 a 3 yr UE sy'n cael ei wario ar gostau gweinyddu'r rhaglen? (WAQ45725)

**Andrew Davies:** Nid yw arian o'r rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 yn cael ei ddefnyddio gogyfer â chostau gweinyddu'r rhaglenni—Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ysgwyddo'r gost honno.

Fodd bynnag, mae pob rhaglen yn cynnwys blaenoriaeth cymorth technegol i gwmpasu gweithgareddau megis cymorth rhaglenni a datblygu; cyhoeddusrwydd a chyfathrebu; ac ymchwil a gwerthuso. Rhestrir prosiectau cymorth technegol ar dudalennu prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (www.WEFO.Wales.gov.uk).

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnig arfaethedig gan Mitall Steel i brynu Arcelor, a'r effaith a gaiff hyn ar weithgynhyrchu dur gan Corus yng Nghymru? (WAQ45734)

**Andrew Davies:** Mae'n llawer rhy gynnar i geisio dyfalu beth fydd y goblygiadau i Corus a phob cynhyrchydd dur yn y DU a busnesau cysylltiol yn dilyn cais digymell €18.6 biliwn Mittal Steel i brynu Arcelor.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Adran Drafnidiaeth am eu hymgynghoriad newydd ar Ddeddf Rheilffyrdd 2005? (WAQ45737)

**Andrew Davies:** Mae fy swyddogion yn cael trafodaethau'n rheolaidd gyda'u cymheiriaid yn uned rheilffyrdd yr Adran Drafnidiaeth ac mae'r rhain wedi cynnwys ymgynghoriad newydd yr Adran Drafnidiaeth ynghylch Deddf Rheilffyrdd 2005.

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw ddarnau o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a allai gau o ganlyniad i ymgynghoriad newydd yr Adran Drafnidiaeth? (WAQ45738)

**Andrew Davies:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw rannau o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a allai gael eu cau o ganlyniad i ymgynghoriad newydd yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â gweithdrefnau statudol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005 ac ni ddylid cymryd y bydd yn arwain at gau rheilffyrdd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi, ac mae'n parhau i gefnogi, ailagor rheilffyrdd yng Nghymru. Mae hyn eisoes wedi arwain at ailgyflwyno gwasanaethau i deithwyr ym Mro Morgannwg a disgwylir i wasanaethau o Lynebwy i Gaerdydd, i ddechrau, ac, yn ddiweddarach, i Gasnewydd, ddechrau yn 2007 a 2009, y naill a'r llall.

**Lisa Francis:** Pryd mae'r Gweinidog yn disgwyl derbyn asesiad Atkins o adroddiad diwygiedig Network Rail ynghylch costau'r cynllun arfaethedig i uwchraddio Llinell Dyffryn Conwy? (WAQ45744)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn disgwyl derbyn asesiad Atkins cyn y Pasg.

**Lisa Francis:** Sawl ponc arafu sydd yng Nghymru ac a wnaiff y Gweinidog ddadansoddi'r ffigurau ar gyfer pob ardal Cyngor Sir? (WAQ45758)

**Andrew Davies:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei dal yn ganolog.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd band eang ym Mleddfa, Powys yn y dyfodol? (WAQ45759)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod Uned Band Eang Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn wedi dethol cyflenwr sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol. Mae tîm pwrpasol o blith staff y cyflenwr sy'n cael ei ffafrio wedi bod yn gweithio'n helaeth gyda'r tîm cymorth band eang arloesol rhanbarthol er mwyn sefydlu ateb a fydd yn dod â band eang i ardaloedd y 35 o gyfnewidfeydd ar draws Cymru nad ydynt yn gallu cael band eang ar hyn o bryd. Mae cyfnewidfa Llangunllo sy'n gwasanaethu cymuned Bleddfa yn un o'r rhain. Bydd y prosiect hefyd yn ceisio darparu ateb i'r mannau hynny yng Nghymru sy'n cael anawsterau band eang. Mae fy swyddogion yn hyderus, unwaith y caiff y contract ei ddyfarnu, erbyn diwedd mis Chwefror, y bydd y broses o alluogi'r cyfnewidfeydd yn dechrau ar unwaith. Eir i'r afael â'r mannau hysbys hynny sy'n cael anawsterau, lle mae modd ymdrin â'r broblem, cyn gynted ag y bydd y broses o alluogi'r cyfnewidfeydd wedi cael ei chwblhau. Ar hyn o bryd ni allaf roi amserlen fanwl i'r gwaith o alluogi cyfnewidfeydd ond caiff hon ei chyhoeddi pan lofnodir y contractau a bydd yn cael ei rhoi ar wefan Band Eang Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn gynted ag y mae ar gael.

**John Marek:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl waith a wnaed ar ffordd ddeuol yr A483 rhwng Rhiwabon a'r ffin dros y 7 mlynedd diwethaf? (WAQ45762)

**Andrew Davies:** Mewn trefn gronolegol:
- Goleuadau stryd newydd, cyfnewidfa Gresffordd (1999)
- Gwaith diddosi a chwyddgymalau newydd ac uwchraddio'r canllawiau, pont Ffordd Bersham (2000)
- Ailadeiladu arglawdd afon Alun ar ôl llifogydd hydref 2000 (2001)
- Ailadeiladu'r ddwy gerbydlon, cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug hyd at gyfnewidfa Gresffordd (04/2004 a 10/2004)
- Atgyweirio/ailadeiladu 30 slab concrit, Gresffordd (01/2005 ac 11/2005)

- Ailwampio ac uwchraddio pompren Lôn Pandy (2005)
- Cynllun codi arwyddion i ddangos rhifau'r cyffyrdd a gwybodaeth llwybrau (2005)
- Gosod wyneb newydd 7.5 km o hyd ar gerbydlon goncrit gyda chwrs tawelu sŵn (2005 a 2006)

Gwaith cynnal a chadw arferol unwaith y flwyddyn, torri glaswellt, archwilio pontydd a gwaith atgyweirio brys yn ychwanegol at yr uchod.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y symiau traffig a ragwelir, wedi'u trefnu fesul math o gerbyd, fydd yn defnyddio'r A48 rhwng Croes Cwrlwys a chyffordd yr A4226 ac ar yr A4226 ar ôl uwchraddio'r ffordd hon? (WAQ45763)

**Andrew Davies:** Mae'r ymgynghorydd a gyflawnodd astudiaeth Croes Cwrlwys a ffordd fynediad y maes awyr, a gyhoeddwyd yn 2002, wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru'r rhagolygon traffig a baratowyd ar gyfer yr astudiaeth honno. Bydd y rhagolygon diweddaredig hyn yn rhoi sylw i'r wybodaeth sydd wedi dod ar gael ers hynny, yn cynnwys cyhoeddi'r Papur Gwyn ar hedfan yn 2003. Mae'r rhagolygon yn cynnwys y niferoedd teithwyr ym maes awyr rhyngwladol Caerdydd, newidiadau i lif y traffig yn sgil ailgyflwyno gwasanaethau rheilffordd i deithwyr i faes awyr rhyngwladol y Rhws, Caerdydd, a'r gwasanaeth bysiau cysylltiol i'r derfynfa deithwyr. Bydd y gwaith hefyd yn gallu rhoi gwell ystyriaeth i ddatblygiadau yn ardaloedd Croes Cwrlwys a'r Barri a gwblhawyd ers y gwaith blaenorol ac i'r arolygon diweddaraf o'r traffig ar hyn o bryd, yn cynnwys y traffig ar yr A48 rhwng Croes Cwrlwys a'r A4226.

Bydd y rhagolygon traffig diweddaredig yn gallu rhoi dadansoddiad bras o'r traffig i'r dyfodol yn ôl y math o gerbyd.

Cynhaliwyd y cyfrif traffig mwyaf diweddar sy'n rhoi dadansoddiad manwl yn ôl math o gerbyd ar y darn o'r A48 sydd dan sylw ym mis Medi 2004. Yr wyf wedi trefnu i'r data crai hwn gael ei anfon ar wahân at yr Aelod Cynulliad ac yr wyf wedi cyfarwyddo swyddogion Trafnidiaeth Cymru i anfon tablau symlach maes o law.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r holl ddata o arolygon traffig a wnaed ar yr A48 rhwng Croes Cwrlwys a chyffordd yr A4226 ac ar yr A4226? (WAQ45764)

**Andrew Davies:** Mae gwybodaeth ar gael o arolygon traffig a gynhaliwyd gan ein hymgynghorwyr yn y lleoliadau a ganlyn: Medi 2004—yr A48 drwy Sain Nicolas (gweler hefyd fy ateb i WAQ45763); Mawrth 2005—yr A4226 Five Mile Lane; a Thachwedd 2004—yr A4226 Port Road West.

Yr wyf wedi trefnu i'r data crai hwn gael ei anfon ar wahân at yr Aelod Cynulliad ac yr wyf wedi cyfarwyddo swyddogion Trafnidiaeth Cymru i anfon tablau symlach maes o law.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl geisiadau am gyllid a wnaed gan Gyngor Bro Morgannwg er mwyn uwchraddio'r A4226, yn ogystal â'r symiau a roddwyd? (WAQ45765)

**Andrew Davies:** Gwrthodwyd cais am £2 filiwn o grant trafnidiaeth yng nghylch ymgeisio 1998-99. Yn y cais yr oedd Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio adnoddau ar gyfer mesurau i dawelu'r traffig ar yr A4226.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r nifer o gerbydau, wedi'u trefnu fesul math, sy'n cymryd pob ffordd bosibl i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd? (WAQ45766)

**Andrew Davies:** Yn dilyn fy atebion i WAQ45763 a WAQ45764 mae ein hymgynghorwyr hefyd wedi casglu data yn ymwneud â: Mawrth 2005—yr A4050 gan osgoi Gwenfô.

Yr wyf wedi trefnu i'r data crai hwn gael ei anfon ar wahân at yr Aelod Cynulliad ac yr wyf wedi cyfarwyddo swyddogion Trafnidiaeth Cymru i anfon tablau symlach maes o law.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i oresgyn problemau tagfeydd traffig yng Nghroes Cwrlwys ar ôl uwchraddio'r A48/A4226? (WAQ45767)

**Andrew Davies:** Yn adolygiad trafnidiaeth mis Rhagfyr 2004 nodais y cynigion tymor hwy i ganiatáu i draffig y maes awyr osgoi Croes Cwrlwys—bydd gwelliannau pellach i'r llwybr hwn i ganiatáu i draffig y maes awyr osgoi Croes Cwrlwys yn cael eu hystyried. Gallai'r rhain olygu cyswllt uniongyrchol newydd â'r maes awyr o'r M4 ar gyffordd 34 ynghyd â maes parcio a theithio/cyfnewidfa foddol strategol bosibl ar gyffordd 34.

Dangosir y cynigion tymor hwy hyn yng ngham 3 blaenraglen y cefnffyrdd, sy'n dangos y bydd y gwaith yn dechrau ar ôl mis Mawrth 2010.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i oresgyn problemau tagfeydd traffig yng Nghroes Cwrlwys? (WAQ45768)

**Andrew Davies:** Mae'r cyfrifoldeb ar hyn o bryd am liniaru'r sefyllfa yng Nghroes Cwrlwys yn gorffwys gyda'r awdurdodau priffyrdd yn y fan hon, sef Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Cafodd gwelliannau posibl eu cynnwys yn adroddiad astudiaeth ymgynghorwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'The Way Forward'. Pe bai'r gorchmynion yn llwyddo, Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'n gyfrifol a byddid yn ymchwilio i atebion pellach ac yn eu rhoi ar waith fel sy'n briodol: fel y cyfeiriwyd ato yn fy ateb i WAQ45767.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhesymeg y tu ôl i Orchymyn Uwchraddio'r A48/A4226? (WAQ45769)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei datganiad achos yn ymwneud â chynigion ar gyfer llwybr mynediad newydd i faes awyr rhyngwladol Caerdydd ar 31 Ionawr ac anfonwyd copïau at bob person sydd wedi cyflwyno sylwadau ar y mater. Mae'r dyfyniad isod a gymerwyd o'r datganiad achos yn nodi safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae hygyrchedd ar raddfa ryngwladol a byd-eang, fel arfer drwy faes awyr sydd â chysylltiadau da sy'n caniatáu ar gyfer cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol cynhwysfawr, yn elfen allweddol o ranbarth dynamig. Er mwyn cefnogi twf maes awyr rhyngwladol Caerdydd ac, yn anuniongyrchol, dwf economïau Caerdydd a de Cymru, mae'n bwysig, yn ogystal â darparu'r cyfle i deithio i'r maes awyr ar gludiant cyhoeddus, fod mynediad digonol yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n dewis teithio ar y ffyrdd.

Nododd y Cynllun i Gymru 2001, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref 2001, y targed o

hwyluso symud nwyddau a phobl yn saff ac yn effeithlon drwy ddarparu a gweithredu rhwydwaith cynaliadwy o ansawdd uchel, o gefnffyrdd, prif ffyrdd a ffyrdd lleol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Ehangwyd y nod hwn ymhellach yn adolygiad cefnffyrdd 2001, a ddiffiniai un o brif swyddogaethau'r rhwydwaith cefnffyrdd fel darparu mynediad i brif borthladdoedd, meysydd awyr a therfynfeydd rheilffyrdd a bysiau. Ar hyn o bryd nid yw maes awyr rhyngwladol Caerdydd yn cael ei wasanaethu gan gefnffordd. Dywedodd adolygiad cefnffyrdd 2002

Mae'r defnydd a wneir o gefnffyrdd wedi newid. Bydd cynlluniau ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol, yn enwedig y rhai sy'n ceisio sicrhau twf economaidd mewn ardaloedd allweddol, hefyd yn arwain at alwadau o'r newydd ar ein rhwydwaith trafnidiaeth. Mae angen cymryd hyn oll i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am raddfa a maint y rhwydwaith cefnffyrdd i'r dyfodol.

Yn dilyn ymgynghori helaeth â'r awdurdodau unedol a'r cyhoedd fel rhan o'r adolygiad cefnffyrdd, cytunodd y Cynulliad yn 2003 ar y polisi o sefydlu cyswllt cefnffordd i faes awyr rhyngwladol Caerdydd o'r A4232. Dywedodd hefyd y byddai'r llwybr arfaethedig yn cael ei seilio ar argymhellion adroddiad annibynnol ac ymgynghori â'r awdurdodau statudol yr effeithid arnynt.

Ni ddylid ystyried y penderfyniad i uwchraddio adrannau o'r A48 a A4226 ar ei ben ei hun ond, yn hytrach, fel rhan o strategaeth gyffredinol i is-ranbarth Caerdydd. Mae'r strategaeth, sydd wedi ei chrynhoi yn adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'The A48/A4232 Culverhouse Cross and Airport Access Study-The Way Forward (August 2003)', hefyd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â chludiant cyhoeddus a gwelliannau ffyrdd eraill.

Argymhellai adroddiad astudiaeth ffordd fynediad y maes awyr a Chroes Cwrlwys, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002, welliannau i lwybr yr A48/A4226 o'r A4232 i faes awyr rhyngwladol Caerdydd, ynghyd â gwelliannau ategol i'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus. Daeth gwaith pellach i gaboli'r strategaeth weithredu a amlinellwyd yn yr adroddiad 'The Way Forward' (Awst 2003), i'r casgliad y dylid ystyried y llwybr hwn i'w fabwysiadu fel cefnffordd.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r posibilrwydd o gau llinellau rheilffordd cangen a llwybrau rheilffordd eilradd yng Nghymru? (WAQ45785)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am y posibilrwydd o gau llinellau rheilffordd cangen a llwybrau rheilffordd eilradd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi, ac mae'n parhau i gefnogi, ailagor rheilffyrdd yng Nghymru. Mae hyn eisoes wedi arwain at ailgyflwyno gwasanaethau i deithwyr ym Mro Morgannwg a disgwylir i wasanaethau o Lynebwy i Gaerdydd, i ddechrau, ac, yn ddiweddarach, i Gasnewydd, ddechrau yn 2007 a 2009, y naill a'r llall.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gymdeithas Hostelau Ieuenctid ynghylch ei chynlluniau i gau hostelau yng Nghymru? (WAQ45786)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr y Gymdeithas Hostelau Ieuenctid ddiwethaf ar 29 Tachwedd 2005. Ni chododd mater cau hosteli yn y cyfarfod hwnnw.

**Kirsty Williams:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i ddiogelu dyfodol hostelau ieuenctid yng Nghymru? (WAQ45787)

**Andrew Davies:** Deallaf fod y cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Hostelau Ieuenctid yn ddiweddar i gau hostelau yng Nghymru a Lloegr yn deillio o adolygiad strategol a'u bod yn rhan o raglen ailstrwythuro ehangach a fwriedir i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r rhwydwaith. Materion i'r gymdeithas yw'r rhain.

Deallaf y bydd y gymdeithas yn dal i fuddsoddi yng Nghymru. Mae blaenoriaethau buddsoddi'r gymdeithas yn cynnwys adleoli ei hostel yng Nghaerdydd a datblygu'r cyfleuster yn Nhyddewi, yn

ogystal ag yn Aberglaslyn yn Eryri. Mae safle newydd i gael ei agos ar Ynys Môn ac mae'n archwilio'r potensial mewn ardaloedd eraill.

Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi rhoi cymorth grant i sawl prosiect unigol dros y blynyddoedd ac mae grantiau twristiaeth yn dal i fod ar gael i'r gymdeithas ar gyfer prosiectau addas yng Nghymru, yn amodol ar feini prawf y cynllun.

**Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog amrywiaeth ymhlith llety ar gyfer ymwelwyr y tu mewn a'r tu allan i Barciau Cenedlaethol yng Nghymru? (WAQ45788)

**Andrew Davies:** Y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddatblygu twristiaeth yn eu hardaloedd eu hunain. Strategaethau'r partneriaethau sy'n rhoi'r ffocws er mwyn datblygu min cystadleuol, ansawdd a chynaliadwyedd cyfleusterau twristiaeth yn ogystal ag amrywiaeth.

Mae cynllun cymorth buddsoddi Bwrdd Croeso Cymru, sy'n darparu cymorth grant a chyngor busnes ar draws Cymru i'r sector llety twristiaeth, o westyau i lety gwely a brecwast ar ffermydd i lety rhad, hefyd yn chwarae rhan allweddol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â chost a goblygiadau staffio darparu brecwast am ddim mewn ysgolion i blant cynradd? (WAQ40965)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch canlyniadau cyflwyno ffioedd ychwanegol amrywiol yng Nghymru? (WAQ40999)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, prifysgolion a chyrff myfyrwyr ynghylch cyflwyno ffioedd ychwanegol amrywiol yng Nghymru? (WAQ41000)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ41025)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a fu rhyngddi hi ag aelodau comisiwn Rees ers iddo gael ei sefydlu yn Medi 2004? (WAQ42101)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi pob gohebiaeth rhwng ei hadran a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Bryn Hyfryd yn Ynysowen? (WAQ42625)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Bryn Hyfryd yn Ynysowen, ac a fydd yn cyhoeddi'r sylwadau hyn? (WAQ42628)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch y posibilrwydd bod troseddwyr rhyw yn gweithio yn ysgolion Cymru? (WAQ45735)

**Jane Davidson:** Ers fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ionawr, yr wyf erbyn hyn wedi cael sicrwydd gan y rhai sy'n adolygu Rhestr 99 nad oes unrhyw unigolion, o blith yr achosion y tynnwyd sylw atynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn ei datganiad i'r Senedd ar 19 Ionawr, yn gweithio yng Nghymru mewn ysgol nac mewn swydd sy'n dod â hwy i gysylltiad â phlant. Hefyd, nid oes unrhyw athrawon sy'n gofrestredig gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn ddarostyngedig i atalfeydd na chyfyngiadau Rhestr 99. Cyfarfu fy swyddogion â swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i gryfhau'r trefniadau cyfredol, ynghyd â chynigion ar gyfer y cynllun fetio ac atal newydd, yn cael eu cymhwyso i Gymru yn yr un modd.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn ddiweddar ynghylch y posibilrwydd bod troseddwyr rhyw yn gweithio yn ysgolion Cymru? (WAQ45736)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ac wedi siarad â hi yn ystod yr wythnos ddiwethaf i ganfod a oes unrhyw athrawon sydd ar y gofrestr troseddwyr rhyw sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd. Fe'ch cyfeiriaf hefyd at fy ateb i WAQ45735.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi tabl i ddangos y ffigurau a'r canrannau, fesul sir, ar gyfer y contractau newydd a roddwyd i athrawon ledled Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/06 hyd yma a) am flwyddyn, b) ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso ac c) staff a gyflogwyd ar gyfer amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (PPA) yn unig? (WAQ45757)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Janet Ryder:** Pa arian sydd ar gael i brifathrawon presennol gael hyfforddiant? (WAQ45761)

**Jane Davidson:** Mae'r rhaglen genedlaethol datblygu prifathrawiaeth yng Nghymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol i'r rhai sy'n dymuno bod yn brifathrawon, i brifathrawon sydd newydd gael eu penodi ac i brifathrawon profiadol. Er mis Ebrill 2005, mae'r rhaglen hon wedi cael ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth y Cynulliad. Yr oedd dyraniad penodol o £1.55 miliwn yn cynnal y rhaglen hon yn 2005-06, wedi'i ddyrannu'n gydradd i gyllido hyfforddiant i'r rhai sy'n dymuno bod yn brifathrawon a datblygiad proffesiynol i brifathrawon presennol.

Yng ngoleuni argymhellion a ddeilliodd o adolygiad pum mlynedd o'r rhaglen genedlaethol datblygu prifathrawiaeth y llynedd, mae gwaith datblygu sylweddol yn cael ei wneud i adnewyddu'r rhaglenni arweinyddiaeth yn ystod 2006. Cyn lansio rhaglen newydd datblygu arweinyddiaeth yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn ystod 2006 bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ariannu'r cymorth i brifathrawon newydd yn llawn, ynghyd â chymorth dilynol i brifathrawon profiadol sy'n ymgymryd â'r rhaglen arweinyddiaeth i brifathrawon mewn swydd. Mae lefelau priodol o gyllid wedi cael eu dyrannu hefyd fel cynhaliaeth lawn i'r rhaglenni arweinyddiaeth newydd yn ystod 2006-07.

O fis Ebrill 2006, bydd £210,000 yn cael ei ddarparu i gynnal rhaglen arloesol o seminarau arweinyddiaeth er mwyn darparu datblygiad proffesiynol ar lefel uwch i hyd at 300 o arweinwyr ysgolion profiadol. Bydd £100,000 yn cael ei ddarparu hefyd i gynnal rhaglen beilot i arweinwyr ymgynghorol yn y Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgol yn Lloegr, gan ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ychwanegol i 24 prifathro arall o Gymru.

**Lisa Francis:** Faint y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei wario ar hysbysebu ei hymgyrch 'Rhifau'n Cyfri'? (WAQ45806)

**Jane Davidson:** Drwy'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwario £51,136.09 ar hysbysebion papur newydd a £490,557.70 ar hysbysebion teledu, sy'n rhoi cyfanswm o £541,693.79.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gomisiynu hysbysebion papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Rhifau'n Cyfri'? (WAQ45807)

**Jane Davidson:** Mae codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau sylfaenol yn rhan annatod o'r strategaeth sgiliau sylfaenol i Gymru. Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymgymerodd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol â phroses dendro agored cyn dyfarnu'r contract.

Mae'r ymgyrch bapur newydd yn rhan o ymgyrch amlgyfrwng ehangach ac ystod o gynlluniau a gweithgareddau i gefnogi sgiliau sylfaenol pobl o bob oedran. Nod yr hysbysebion yw bod yn rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau rhif a'r cyfleoedd i wella sgiliau rhif. Mae'r hysbysebion i gyd yn cynnwys rhif rhadffôn sy'n fodd i'r rhai sy'n ffonio gael y deunyddiau 'Rhifau'n Cyfri' sydd am ddim—pecyn hunan gymorth i oedolion a phecyn i oedolion i'w ddefnyddio gyda'u plant. Mae'r pecyn oedolion yn cynnwys cyfeireb at Learn Direct i annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn lleol.

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fesur pa mor effeithiol y bu'r hysbysebion papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Rhifau'n Cyfri'? (WAQ45808)

**Jane Davidson:** Gan mai dim ond ar 23 Ionawr y lansiwyd yr ymgyrch bresennol yn y cyfryngau, mae'n rhy gynnar i asesu ei heffaith.

Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu'r strategaeth sgiliau sylfaenol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi comisiynu MRUK i gynnal arolwg cyn-yr-ymgyrch o'r ymwybyddiaeth o sgiliau mathemateg. Bydd hwn yn sefydlu llinell sylfaen a gaiff ei chysylltu ag arolwg ar ôl yr ymgyrch i ganfod effaith yr ymgyrch. Mae ymgyrchoedd blaenorol wedi cael eu dadansoddi mewn ffordd debyg ac maent yn dangos effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y mae'r hysbysebion papur newydd ar gyfer 'Rhifau'n Cyfri' yn cynnig gwerth da am arian? (WAQ45809)

**Jane Davidson:** Yr oedd y profiad o ymgyrchoedd blaenorol a oruchwyliwyd gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i gyd yn cynnwys archwiliadau ymwybyddiaeth cyn ac ar ôl yr ymgyrch sydd wedi darparu tystiolaeth am effaith yr ymgyrchoedd ar yr ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol. Er enghraifft, dangosodd y gwerthusiad o'r ymgyrch 'Siarad Gyda'n Gilydd' a gynhaliwyd o 24 Ionawr i 27 Chwefror 2005 fod 61 y cant o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r hysbysebion, tra'r oedd 84 y cant o rieni a gofalwyr ac 88 y cant o ymarferwyr wedi gweld o leiaf un hysbyseb deledu. Cyn yr ymgyrch, teimlai 57 y cant o rieni y dylai plant gael eu cyflwyno i ganeuon a rhigymau a rhannu llyfrau. Ar ôl yr ymgyrch yr oedd y ffigur yn 85 y cant (ystadegau a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol). Rhan o'r ymgyrch yw'r hysbysebion papur newydd—maent yn ategu ac yn cefnogi elfennau radio, teledu, cyfryngau awyr agored a rhyngweithiol yr ymgyrch. Mae effaith gronnus yr ymgyrch yn arwyddocaol o ran creu argraff ar ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Bydd y gwerthusiad sydd ar y gweill o'r ymgyrch bresennol yn casglu tystiolaeth am effaith gymharol holl elfennau'r ymgyrch amlgyfrwng.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddadansoddi cost pob hysbyseb papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Rhifau'n Cyfri' ar gyfer pob papur newydd lle gosodwyd yr hysbysebion, a rhoi manylion ynghylch nifer yr hysbysebion a osodwyd? (WAQ45810)

**Jane Davidson:** Rhoddir dadansoddiad manwl isod o'r hysbysebion a osodwyd, yn cynnwys y gost.

| **Cyhoeddiad** | **Maint** | **Safle** | **Hysbys-ebion** | **Dyddiadau** | **Iaith** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Western Mail* | 160x266 | Tudalen dde gynnar | 8 | 23, 26, 30 Ionawr<br>2, 6, 9, 13, 16 Chwefror | Dwyieithog | £17,750.00 |
| *South Wales Echo* | 160x266 | Tudalen dde gynnar | 4 | 25 Ionawr<br>1, 8, 15 Chwefror | Dwyieithog | £9,939.45 |
| *Liverpool Daily Post* | 160x266 | Tudalen dde gynnar | 4 | 26 Ionawr<br>2, 9, 16 Chwefror | Dwyieithog | £6,912.00 |
| *North Wales Weekly News* | 160x272 | Tudalen dde gynnar | 2 | 26 Ionawr<br>9 Chwefror | Dwyieithog | £2,194.00 |
| *Yr Herald* | 160x266 | Tudalen dde gynnar | 2 | 25 Ionawr<br>1, 8, 15 Chwefror | Cymraeg | £3,456.00 |
| *Wrexham Evening Leader* | 150x259 | Tudalen dde gynnar | 4 | 25 Ionawr<br>1, 8, 15 Chwefror | Dwyieithog | £4,050.00 |
| *Golwg* | 340x240 | Tu mewn y clawr cefn | 2 | 26 Ionawr<br>9 Chwefror | Cymraeg | £1,512.00 |
| *Cambrian News* | 160x269 | Tudalen dde gynnar | 2 | 26 Ionawr<br>9 Chwefror | Dwyieithog | £2,027.20 |
| *South Wales Argus* | 160x259 | Tudalen dde gynnar | 2 | 25 Ionawr<br>8 Chwefror | Dwyieithog | £3,295.44 |

**Lisa Francis:** Sawl ysgol a gaeodd yng Nghymru er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog ddadansoddi'r ffigurau hyn ar gyfer pob etholaeth? (WAQ45811)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth hon ar gael fesul awdurdod addysg lleol, ond nid fesul etholaeth, fel a ganlyn. Mae'n dangos bod 57 o ysgolion wedi cau yn y cyfnod dan sylw. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys uno ysgolion iau ac ysgolion babanod, cau ysgolion meithrin nac achosion lle mae ysgol wedi cael ei disodli gan ysgol newydd ar yr un safle.

**Ysgolion Uwchradd, Cynradd, Iau a Babanod**

| AALl | BLWYDDYN | YSGOL |
|---|---|---|
| Ynys Môn | | Dim un |
| Blaenau Gwent | 1999 | Glanyrafon (Uwchradd) |
| | 2000 | Ysgol Iau Cwmtyleri |
| | 2001 | Rasa* |
| | 2002 | Ysgol Gynradd Areal* |
| | 2003 | Ysgol Babanod Cwmcelyn |
| | 2004 | Ysgol Gynradd Tŷ'r Graig |
| | | Ysgol Gynradd Brynhyfryd |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2003 | Ysgol Gynradd Fronwen |
| | | Ysgol Iau Tynewydd |
| Caerffili | 2002 | Ysgol Babanod Glanynant |
| | 2004 | Ysgol Gynradd Cwmsyfiog* |
| | | Ysgol Gynradd Tir-phil * |
| | 2005 | Bedwellte* (Uwchradd) |
| Caerdydd | 2004 | Ysgol Gynradd Viriamu Jones* |
| Sir Gaerfyrddin | 1999 | Ysgol Gynradd Bethlehem * |
| | | Ysgol Gynradd Gwynfe |
| | 2001 | Ysgol Gynradd Myddfai * |
| | 2003 | Ysgol Gynradd Alltwalis * |
| | | Ysgol Gynradd Llanfihangel yr Arth * |
| | | Ysgol Gynradd Cwm-bach * |
| | | Ysgol Gynradd Llangynin * |
| | 2004 | Ysgol Gynradd Llanddowror * |
| | | Ysgol Gynradd Henllan Amgoed* |
| | | Ysgol Gynradd Garnant |
| | | Ysgol Gynradd Glanaman |
| Ceredigion | | Dim un |
| Conwy | | Dim un |
| Sir Ddinbych | 2000 | Ysgol Gynradd Nantyglyn |
| | 2004 | Ysgol Gynradd St Winefrides (Llanelwy)* |
| Sir y Fflint | | Dim un |
| Gwynedd | | Dim un |
| Merthyr Tudful | 1999 | Ysgol Babanod Graig Bedlinog* |
| | 2002 | Ysgol Babanod Pentre-bach * |
| | 2005 | Vaynor Penderyn*(Uwchradd) |
| Sir Fynwy | 2003 | Ysgol Gynradd Llanelen |
| | 2005 | Ysgol Iau Dewi Sant* (Y Fenni) |
| | | Ysgol Fabanod Croesonnen *(Y Fenni) |
| | | Ysgol Fabanod Park Street * (Y Fenni) |
| Castell-nedd Port Talbot | | Dim un |
| Casnewydd | | Dim un |

| | | |
|---|---|---|
| Sir Benfro | 1999 | Ysgol Gynradd Tyddewi |
| | 2000 | Ysgol Gynradd Ynyr Bŷr |
| | | Ysgol Gynradd Manordeifi* |
| | | Ysgol Gynradd Bwlch-y-groes* |
| | 2001 | Ysgol Gynradd Penffordd |
| | 2002 | Ysgol Gynradd Dinas* |
| | 2003 | Ysgol Gynradd Trewyddel* |
| | 2004 | Ysgol Gynradd Tredafydd |
| | | Ysgol Gynradd Blaenffos * |
| | | Ysgol Gynradd Hermon* |
| Powys | 2005 | Ysgol Gynradd Libanus* |
| | | Ysgol Gynradd Trecastell* |
| Rhondda Cynon Taf | 1999 | Ysgol Gynradd Dwn-rhefn |
| | | Ysgol Gynradd Blaenrhondda |
| | | Ysgol Gynradd Blaen-cwm |
| | | Ysgol Babanod Hendrefadog |
| | 2005 | Ysgol Babanod Treherbert |
| Abertawe | 2001 | Dinefwr* (Uwchradd) |
| | | Ysgol y Bechgyn Penlan* (Uwchradd) |
| Tor-faen | 2001 | Ysgol Gynradd Park Terrace * |
| | | Ysgol Babanod Cwmbran Uchaf* |
| Bro Morgannwg | 2004 | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Penarth |
| Wrecsam | 2004 | The Groves (Uwchradd)* |

* penderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol/Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr awdurdod addysg lleol sy’n penderfynu ar gynigion i gau ysgolion lle na cheir gwrthwynebiadau, heb gyfeirio at y Cynulliad.

**Michael German:** Pa bryd fydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd VC Ponthir? (WAQ45818)

**Jane Davidson:** Bwriadaf benderfynu ar y cynnig hwn cyn gynted ag yr wyf yn hyderus fod gennyf yr holl wybodaeth berthnasol i’m galluogi i wneud penderfyniad cytbwys a rhesymegol sydd er budd addysgol pennaf yr holl ddisgyblion dan sylw. Gobeithiaf y bydd hyn o fewn yr ychydig wythnosau nesaf, ond mae’n bwysicach gwneud y penderfyniad cywir na gwneud penderfyniad cyflym.

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth yw’r rheolau sy’n pennu pryd y mae’n rhaid i arolygydd ysgolion ymddeol? (WAQ45826)

**Jane Davidson:** Mater i’r prif arolygydd addysg a hyfforddiant yw’r telerau a’r amodau sy’n gysylltiedig â chofrestru arolygwyr. Deallaf fod y prif arolygydd wedi darparu copi ichi o’i llythyr dyddiedig 20 Rhagfyr at Mr Eifion R. Morgan, sy’n nodi’r sefyllfa ar hyn o bryd. Mae’r llythyr hefyd yn nodi’r sylw sy’n cael ei roi gan yr arolygiaeth i’r goblygiadau posibl i’w gweithdrefnau a allai ddeillio o Reoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006. Bydd y prif arolygydd yn gallu darparu unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach y gallai fod eu hangen arnoch.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â bygythiad llifogydd mewn cymunedau yng Nghymru? (WAQ40983)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001? (WAQ40994)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau gwahardd hela â chŵn i Gymru? (WAQ40997)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw gysylltiad â'r cynnig am gyfarwyddeb yn ymwneud â diogelu ar y fferm y cywion ieir a gedwir i gynhyrchu cig yn yr UE, ac os ydyw, a wnaiff roi manylion y cysylltiad hwnnw, gan ddatgelu unrhyw ohebiaeth. Os nad ydyw, a yw'n bwriadu cyflwyno sylwadau fel Gweinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol neu drwy UKRIP? (WAQ42888)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion cyfathrebu a fu rhwng ei adran a'r Uned Caniatadau Morol a'r Amgylchedd ynglŷn â fferm wynt alltraeth Scarweather? (WAQ43843)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion cyfathrebu a fu rhwng ei adran a DEFRA ynglŷn â fferm wynt alltraeth Scarweather? (WAQ43844)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol taliadau Tir Mynydd? (WAQ45720)

**Carwyn Jones:** Cyhoeddwyd papur ymgynghori ar yr opsiynau o ran Tir Mynydd i'r dyfodol ar ôl 2006 ar 11 Ionawr. Mae copïau ar gael yn y Llyfrgell. Mae'r cyfnod ymgynghori yn cau ar 11 Mawrth.

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal asesiad o'r effaith ar ffermio ar dir uchel pe bai taliadau Tir Mynydd yn cael eu dirwyn i ben? (WAQ45721)

**Carwyn Jones:** Byddai unrhyw barhad o'r cynllun Tir Mynydd o dan echel II o'r cynllun datblygu gwledig olynol. Mae'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr hefyd yn ei gwneud yn glir y bydd adolygiad, yn ystod 2007 a 2008, o'r mesurau echel II a ddarperir o dan y cynllun hwnnw.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o ffermwyr sydd a) wedi datgan diddordeb yn y cynllun Tir Canol a b) faint sydd yn rhan o'r cynllun? (WAQ45722)

**Carwyn Jones:** Gwnaeth rhyw 5,100 o ffermwyr gais i ymuno â Tir Cynnal. O'r rheini mae naw wedi tynnu'n ôl ers hynny ac mae tua 200 yn debygol o fod yn anghymwys yn bennaf am eu bod eisoes yn Tir Gofal neu nad ydynt yn cyrraedd y gofyniad derbyn lleiaf o 3 hectar. Ar hyn o bryd nid oes cytundebau Tir Cynnal. Ein bwriad yw dechrau cynnig cytundebau yn ddiweddarach y mis hwn.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o ddatblygu'r farchnad allforio ŵyn byw? (WAQ45723)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn ymwybodol fod unigolion yn y diwydiant yn ystyried y posibilrwydd o atgyfodi'r fasnach anifeiliaid byw i Ewrop. Mae'r fasnach mewn allforion byw yn gyfreithiol ac mae iddi'r potensial i gynyddu prisiau llidiart y fferm. Fodd bynnag, mae'n lleihau'r gallu i ychwanegu gwerth at garcasau cig yng Nghymru.

**Lisa Francis:** Faint o arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at gynlluniau strwythurol i amddiffyn yr arfordir ac atal llifogydd? (WAQ45727)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu cyllideb flynyddol o £5.8 miliwn i gynorthwyo cynlluniau cyfalaf amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir yr awdurdodau lleol. Mae cyllideb gyfalaf o £11.9 miliwn ar gyfer 2006-07 a £13.5 miliwn hefyd wedi cael ei dyrannu i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar gyfer prosiectau amddiffyn rhag llifogydd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bygythiad i adar o dyrbinau gwynt? (WAQ45730)

**Nick Bourne:** Pa astudiaethau sydd wedi'u cynnal i'r bygythiad i adar o dyrbinau gwynt? (WAQ45731)

**Carwyn Jones:** Dros y blynyddoedd mae nifer fawr o astudiaethau wedi cael eu cynnal yn y DU i effaith ffermydd gwynt ar fywyd gwyllt ac adar yn arbennig. Mae'r rhain yn awgrymu bod risg fach y bydd adar yn taro yn erbyn tyrbinau gwynt sydd wedi cael eu lleoli'n briodol. Yn ogystal, ni cheir mynd ati i ddatblygu fferm wynt heb sicrhau'r caniatadau angenrheidiol o dan y gyfundrefn gynllunio arferol neu adran 36 o Ddeddf Trydan 1989. Mae'r broses hon yn rhoi gofyniad ar ddatblygwyr i ystyried holl effeithiau amgylcheddol prosiect, yn cynnwys yr effaith ar adar, ac i gynhyrchu asesiad o'r effaith amgylcheddol. Mae'r asesiadau hyn ar gael i'r cyhoedd.

**William Graham:** A fydd y Gweinidog yn gwneud datganiad am yr archwiliad arfaethedig i'r elifion sy'n gollwng i Fôr yr Iwerydd o adeilad sgrinio manwl Tintagel a gwaith trin carthion Bossiney a allai effeithio ar ansawdd y dŵr ar hyd arfordir Cymru? (WAQ45742)

**Carwyn Jones:** Nid wyf yn bwriadu gwneud datganiad o'r fath. Fe'm cynghorir gan Asiantaeth yr Amgylchedd mai elifion ar raddfa fach yw'r rhain oddi ar arfordir Cernyw ac nad oes unrhyw debygrwydd y byddant yn cael unrhyw effaith fesuradwy ar y dyfroedd ar hyd arfordir Cymru.

**Kirsty Williams:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddarparu canllawiau cynllunio atodol i awdurdodau lleol mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynediad i'r anabl, fel y gwnaethpwyd yn Lloegr? (WAQ45747)

**Carwyn Jones:** Yng Nghymru, mae'n ofynnol i bob datblygwr ymateb i'r gofynion cynllunio o ran hygyrchedd fel y'u hamlinellwyd yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio'.

Dywed 'Polisi Cynllunio Cymru', adran 3.9.5, y

dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ystyried mater hygyrchedd i bawb ... yn gynnar yn y broses ddylunio.

Mae TAN 12 yn cynghori ymhellach y dylai datganiadau dylunio gael eu cyflwyno gyda phob cais cynllunio am ddatblygiad sydd â goblygiadau dylunio (paragraff 4.8).

I danlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob agwedd o ddylunio, darparwyd cyllid i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio (Cymru) i gynhyrchu ei chanllawiau dylunio ei hun o dan raglen 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru': mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at faterion hygyrchedd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Comisiwn Dylunio Cymru ac mae'n darparu cyllid iddo. Mae'r comisiwn yn ystyried materion hygyrchedd wrth adolygu prosiectau dylunio newydd.

Nid wyf yn bwriadu darparu canllawiau ychwanegol gan fod canllawiau ar gael yn barod yng Nghymru a Lloegr.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am TB mewn gwartheg? (WAQ45748)

**Carwyn Jones:** Ar 15 Rhagfyr 2005, cyhoeddais becyn o fesurau i reoli TB mewn gwartheg yng Nghymru. Datblygwyd y pecyn er mwyn dal y ddysgl yn wastad rhwng materion amaethyddol a materion rheoli bywyd gwyllt ac maent yn ychwanegol at y mesurau hynny sydd eisoes mewn grym.

**Lisa Francis:** Sawl cais cynllunio ôl-weithredol sy'n disgwyl ystyriaeth ym mhob sir yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ45753)

**Carwyn Jones:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data'n benodol am geisiadau cynllunio ôl-weithredol.

**Lisa Francis:** Sawl cais cynllunio ôl-weithredol a wneir yn flynyddol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac a wnaiff ddadansoddi'r ffigurau ar gyfer pob sir? (WAQ45754)

**Carwyn Jones:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data'n benodol am geisiadau cynllunio ôl-weithredol.

**Lynne Neagle:** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi adroddiad y grŵp llywio a fu'n edrych ar y defnydd o gerbydau maes, ac ymateb i'w argymhellion? (WAQ45760)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn disgwyl i adroddiad y grŵp llywio a fu'n edrych ar y defnydd o gerbydau maes ddod i law erbyn diwedd mis Chwefror a chaiff ei gyhoeddi cyn gynted ag y byddaf wedi ystyried ei argymhellion. Disgwyliaf i hyn fod ym mis Mawrth 2006.

**Laura Anne Jones:** Pa systemau sydd ar waith i bobl adfer eu colledion ardaloedd llai ffafriol trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol? (WAQ45789)

**Carwyn Jones:** Yn gyffredinol, nid yw ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol yn gwneud colledion.

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru? (WAQ45790)

**Carwyn Jones:** Bydd y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru a'i chynllun gweithredu ategol yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2006.

Datblygwyd y strategaeth drwy broses ymgynghori helaeth ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae'n adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad 'Ein Hamgylchedd—Ein Dyfodol—Eich Barn' a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2005, a chanlyniadau rhag-ymgynghoriad a gynhaliwyd yn haf 2004.

Diben y strategaeth yw darparu fframwaith y mae modd, o'i fewn, sicrhau amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn amrywiol yn fiolegol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r sialensiau amgylcheddol allweddol sy'n ein hwynebu, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd.

Erbyn 2026, yr ydym am weld ein hamgylchedd neilltuol ni yng Nghymru yn ffynnu ac yn cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ac iechyd holl bobl Cymru.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lleihau llygredd aer? (WAQ45791)

**Carwyn Jones:** Mae gwella ansawdd yr aer yn un o'r materion yr ymdrinnir ag ef yn y strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru sydd i gael ei chyhoeddi'n fuan. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban i adolygu strategaeth ansawdd aer y DU. Bydd y strategaeth ansawdd aer ddiwygiedig yn canolbwyntio ar ymchwil a chyfeiriad polisi cyfatebol o ran y llygryddion hynny sy'n effeithio fwyaf ar iechyd a'r amgylchedd.

Yr ydym hefyd yn cymryd rhan yn adolygiad y DU o'r rhaglen newid yn yr hinsawdd. Bwriad yr adolygiad yw lleihau'r gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, ond bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y lefelau nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid a gronynnau.

Ar lefel leol, mae'r awdurdodau lleol yn gweithio tuag at leihau'r lefelau amgylchynol o lygryddion atmosfferig yn eu hardaloedd o dan y gyfundrefn rheoli ansawdd aer lleol. Mae'r broses statudol hon yn golygu asesu a monitro llygryddion allweddol i sicrhau bod y lefelau yn is na'r hyn sydd wedi ei wahardd mewn deddfwriaeth ansawdd aer. Lle'r eir dros y trothwyon i lygryddion neilltuol sydd wedi eu gwahardd, mae'r awdurdodau lleol yn datgan ardaloedd rheoli ansawdd aer ac yn cynhyrchu cynlluniau gweithredu cyfatebol i fynd i'r afael â'r materion ansawdd aer.

**Jenny Randerson:** Pa ganran o wastraff Cymru sy'n cael ei ailgylchu? (WAQ45792)

**Carwyn Jones:** 19.4 y cant.

**Laura Anne Jones:** Pa ganran o'r tir a gynhwyswyd yn y cynllun Tir Gofal sydd mewn ardaloedd llai ffafriol? (WAQ45793)

**Carwyn Jones:** Mae wyth deg y cant o'r tir a gynhwyswyd yn y cynllun Tir Gofal mewn ardal lai ffafriol.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i wella rhagor ar ansawdd y dŵr o amgylch arfordir Cymru? (WAQ45794)

**Carwyn Jones:** Mae ansawdd dyfroedd arfordirol Cymru yn rhagorol. Yn 2005 cyrhaeddodd pob un o'r 80 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig sy'n cael eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd y safonau Ewropeaidd gorfodol a chyrhaeddodd 91 y cant, y ganran uchaf erioed, y safonau canllaw llawer llymach. Cyhoeddwyd 38 o draethau Baner Las yng Nghymru y llynedd, y nifer mwyaf erioed.

Ym mis Gorffennaf 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Ein Hamgylchedd—Ein Dyfodol—Eich Barn' er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd am strategaeth amgylcheddol arfaethedig ar gyfer Cymru. Yr oedd yn cynnwys polisi ar gyfer yr amgylchedd morol, yn cynnwys nod arfaethedig. Bwriadaf gyhoeddi'r strategaeth ar ei gwedd derfynol yng ngwanwyn 2006.

**Owen John Thomas:** Pa gymhellion y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi i hybu ffermio yng Nghymru? (WAQ45795)

**Carwyn Jones:** Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r fferm deuluol draddodiadol yng Nghymru wedi ei nodi yn 'Ffermio i'r Dyfodol', ac mae wedi ei hatgyfnerthu gan amrywiaeth eang o raglenni a fwriadwyd i annog dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant.

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cyngor busnes am ddim i ffermwyr Cymru, tîm o hwyluswyr sydd wedi'u hyfforddi a mynediad at wybodaeth am yr arferion gorau a gwybodaeth dechnolegol drwy bum canolfan ddatblygu sectoraidd.

Mae'r diwygiadau i'r polisi amaethyddol cyffredin wedi cael eu gweithredu i adlewyrchu anghenion Cymru a ffermwyr Cymru—a ni oedd y rhan gyntaf o'r DU i dalu elfen sylweddol o'r taliad sengl i'n ffermwyr. Mae'r PAC ar ei newydd wedd, sy'n werth rhyw £230 miliwn i'r gymuned ffermio yng Nghymru, yn rhoi'r hyblygrwydd i ffermwyr i deilwrio eu cynhyrchiant ar gyfer y farchnad. Ymysg mesurau eraill mae'r strategaeth bwyd-amaeth a chymorth gyda gwaith prosesu, marchnata a datblygu cynnyrch.

Mae cyllideb Tir Cymru yn rhwymo symiau sylweddol o arian i economi wledig Cymru i gefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy. Yn 2005-06 bydd dros £56 miliwn yn cael ei dalu allan ar gynlluniau.

Yr ydym hefyd yn rhoi arweiniad i ffermwyr ar y ffordd orau o amddiffyn rhag clefydau anifeiliaid drwy fod ar eu gwyliadwriaeth a chynnal safonau uchel o fioddiogelwch. Mae'r strategaeth iechyd a lles anifeiliaid yn hyrwyddo gweithredu drwy bartneriaeth rhwng ffermwyr a'u milfeddygon er mwyn datblygu cynlluniau i wella a datblygu iechyd a lles diadelloedd a buchesau yng Nghymru.

Mae'r mesurau hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda'r diwydiant i annog dyfodol mwy hyfyw a chynaliadwy i ffermwyr.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a'r Gweinidog llywodraeth leol ynghylch cyflwyno canllawiau i wella'r amgylchedd adeiledig? (WAQ45796)

**Carwyn Jones:** Gan fod canllawiau eisoes yn bodoli nid wyf wedi trafod y mater hwn gyda'r Gweinidog llywodraeth leol.

Mae amcan Llywodraeth y Cynulliad o amddiffyn a gwella'r amgylchedd adeiledig wedi ei nodi yn 'Polisi Cynllunio Cymru'. Mae canllawiau mwy manwl wedi eu cynnwys yn nodyn cyngor technegol 12 sy'n ymdrin â dylunio a materion cysylltiol, megis mannau cyhoeddus, yr amgylchedd hanesyddol, dyluniad a gosodiad tai.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi sefydlu, ac mae'n ariannu, Comisiwn Dylunio Cymru i hybu safonau uchel o ran pensaernïaeth, y tirwedd a dylunio trefol yng Nghymru. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bwysigrwydd amgylchedd adeiledig o ansawdd dda, yn cefnogi meithrin sgiliau ac yn annog cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer ailgylchu yng Nghymru? (WAQ45797)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £93 miliwn i'r awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2005-06 a 2007-08 fel grant penodol i wella rheoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy ac i gefnogi mwy o ailgylchu a chompostio. Yr ydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i annog partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a'r sector cymunedol i wella ailgylchu a chompostio, ac wedi darparu cyllid i gyrff megis Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru a rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau i helpu i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau ailgylchu Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ45798)

**Carwyn Jones:** Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' yn nodi'n glir bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad o ran rheoli gwasanaeth yn gynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cynnwys targedau i'r awdurdodau lleol ar gyfer y dyfodol. Caiff y rhain eu mesur yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef cynyddu ailgylchu a chompostio i:

- 25 y cant erbyn 2006-07, a rhaid i 10 y cant o leiaf o hynny fod un ai'n ailgylchu neu'n gompostio *.
- 40 y cant erbyn 2009-10, a rhaid i 15 y cant o leiaf o hynny fod un ai'n ailgylchu neu'n gompostio *.

*Dim ond compostio gwastraff gwyrdd neu wastraff bwyd a wahanwyd yn y ffynhonnell fydd yn cyfrif tuag at y targedau hyn.

Bydd cyflawni'r targedau hyn o eiddo Llywodraeth y Cynulliad yn gyfraniad tuag at ymdrech Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi yn 2010.

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r ffordd y mae anifeiliaid syrcas yn cael eu trin? (JAQ45799)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi cael trafodaethau o'r fath ar hyn o bryd.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru? (WAQ45800)

**Carwyn Jones:** Yr ydym wedi ymrwymo i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Bydd y strategaeth amgylcheddol newydd i Gymru, sydd i fod i gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill, yn ymdrin â newid yn yr hinsawdd fel blaenoriaeth. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad darged eisoes i leihau'r gollyngiadau tŷ gwydr 20 y cant, o'u cymharu â llinell sylfaen 2000, erbyn 2020, ac adlewyrchir hyn yn y canlyniadau sydd yn y strategaeth.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu i ddynodi effeithiau newid yn yr hinsawdd ar draws pob portffolio. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, byddwn yn nodi polisïau a rhaglenni allweddol a all gyfrannu tuag at leihau'r gollyngiadau. Yr ydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU ar yr adolygiad o raglen y DU ar newid yn yr hinsawdd, sy'n anelu at leihau gollyngiadau ymhellach.

**Nick Bourne:** Sut y mae polisïau'r Gweinidog yn gwella'r amgylchedd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ45801)

**Carwyn Jones:** Mae amddiffyn a gwella'r amgylchedd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn ein gwaith yn datblygu'r strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru, a gaiff ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Mae ein polisïau amgylcheddol cyfredol yn arwain at welliannau. Er enghraifft, bu cynnydd da o ran gwella ansawdd dŵr yn yr ardal. Mae gwaith monitro Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2004 yn dangos bod 94 y cant o afonydd Cymru o ansawdd cemegol da a bod 79 y cant o ansawdd biolegol da.

Mae'r traethau yn y Gorllewin yn lanach am yr ail flwyddyn yn olynol. Cyrhaeddodd pob un o'r 80 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru sy'n cael eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd y safonau Ewropeaidd gorfodol a chyrhaeddodd 91 y cant (73), y ganran uchaf erioed, y safonau canllaw llymach.

Mae'r cynnydd o ran mynd i'r afael â materion gwastraff yn amlwg, gyda data dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dangos bod yr awdurdodau lleol yng Nghymru gyda'i gilydd wedi rhagori ar darged 2003-04 o gynyddu ailgylchu a chompostio i 15 y cant drwy gyrraedd 16 y cant drwyddynt draw. Dengys data 2004-05 welliant pellach, gydag ailgylchu a chompostio yn cynyddu i 19 y cant, ac, er enghraifft, Ceredigion yn cyrraedd 32.8 y cant ac Abertawe a sir Gaerfyrddin fel ei gilydd yn cyrraedd lefel gyfun uwch nag 20 y cant o ran ailgylchu a chompostio.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith TAN 8 (Ynni Adnewyddadwy) ar dirwedd y Canolbarth? (WAQ45802)

**Carwyn Jones:** Drwy ganolbwyntio ar ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr, dros 25 MW, mewn saith ardal chwilio strategol, mae'r polisi yn TAN 8 wedi ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar dirwedd ac amgylchedd Cymru gyfan.

**Carl Sargeant:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â phlismona'r gwaharddiad ar hela llwynogod yng Nghymru? (WAQ45803)

**Carwyn Jones:** Dim. Mater i'r heddlu a'r llysoedd yw gorfodi Deddf Hela 2004.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y TAN mwynau glo drafft? (WAQ45804)

**Carwyn Jones:** Cyhoeddwyd y nodyn cyngor technegol drafft ar fwynau glo at ddibenion ymgynghori ar 30 Ionawr. Bydd yr ymarferiad ymgynghori yn para tan 28 Ebrill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r gost y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei dalu am hysbysebu, o flwyddyn i flwyddyn, ers mis Mai 1999? (WAQ40948)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r 'estyniad' a gynigiwyd ym maes parcio'r Cynulliad fel dewis arall i'r siambr newydd? (WAQ40957)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â datblygu siambr newydd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys costau, ers i'r prosiect gychwyn? (WAQ40989)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phartneriaeth Richard Rogers ynghylch siambr newydd y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ40990)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Jeff Jones, ynghylch cyllid llywodraeth leol a lefelau'r dreth gyngor? (WAQ40992)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r modd y byddai ailfandio'r dreth gyngor yn cael ei gyflawni yng Nghymru, a goblygiadau gwneud hynny o ran cost? (WAQ41012)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau ailfandio'r dreth gyngor yn Lloegr, yn dilyn y profiadau a gafwyd yng Nghymru? (WAQ41013)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn dangos cost gweinyddu swyddfa'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ41027) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw ohebiaeth ynglŷn â'r cynnydd mewn ardrethi busnes yng Nghymru, ac os felly, a fydd yn cyhoeddi'r ohebiaeth honno? (WAQ42657)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Sue Essex:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sawl busnes ym Mhowys sydd wedi cael budd o ryddhad ardrethi gwledig er 2002? (WAQ45724)

**Sue Essex:** Nid yw'r wybodaeth a geisir yn cael ei dal yn ganolog gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, yr oedd cyfanswm y rhyddhad gwledig a roddwyd ym Mhowys rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2005 yn £4.3 miliwn.

**Peter Black:** Pa ddarpariaethau ariannol y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ar gyfer dod â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad dan adain Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ45776)

**Sue Essex:** Mae'r rhan fwyaf o gost yr uno yn cael ei thalu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r CCNC. Yr ydym wedi gwneud darpariaeth o £4.7 miliwn eleni i gwrdd â'r costau nad oes modd eu talu o fewn yr adnoddau presennol.

Ar gyfer y flwyddyn nesaf mae cyllideb dros dro o £7.1 miliwn wedi cael ei dyrannu i gwrdd â chostau ychwanegol, yn cynnwys amcangyfrifon cynnar am gost y cynlluniau uno sy'n weddill, er enghraifft, gwariant ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hyfforddiant a systemau.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ45777)

**Sue Essex:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i sefydlu dull cyson ac unffurf o ymdrin â'i holl weithgarwch caffael a chyflenwi. Mae'r holl waith caffael yn dilyn egwyddorion a gweithdrefnau unffurf ac ymgymerir ag ef mewn modd sy'n foesegol, yn atebol ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau gweithdrefnol, cyfreithiol a rhyngwladol. Er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored yn ei holl weithgarwch caffael mae'r Cynulliad, pa bryd bynnag y mae hynny'n ymarferol, yn

mabwysiadu'r arferion caffael gorau fel y'u lledaenir gan Gwerth Cymru (caffael) a Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido'r gyllideb Addysg a Dysgu Gydol Oes? (WAQ45779)

**Sue Essex:** Dyrannodd cynlluniau cyhoeddedig y gyllideb derfynol ym mis Tachwedd 2005 dros £1.5 biliwn i'r prif grŵp gwariant addysg a dysgu gydol oes yn 2006-07. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 13.1 y cant dros gynlluniau cyhoeddedig 2005-06.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau cyllidebol cyfredol? (WAQ45780)

**Sue Essex:** Mae cyllidebau cyhoeddedig y Cynulliad yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol 'Cymru: Gwlad Well'. Yr oedd y gyllideb derfynol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn ar waith.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru am y tair blynedd nesaf ar y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes? (WAQ45781)

**Sue Essex:** Bydd y dyraniad yn y gyllideb i'r prif grŵp gwariant addysg a dysgu gydol oes yn cynyddu o £1.5 biliwn yn 2006-07 i dros £1.6 biliwn yn 2008-09. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 24 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru am y tair blynedd nesaf ar y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ45782)

**Sue Essex:** Bydd y dyraniad yn y gyllideb i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu o £4.823 biliwn yn 2005-06 i £5.471 biliwn yn 2008-09. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 13 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waredu asedau cyfalaf a oedd yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ45783)

**Sue Essex:** Mae eiddo cyfalaf y nodir nad oes ei angen mwyach yn cael ei waredu yn unol â chanllawiau cyfredol y Trysorlys fel y'u cymhwysir gan y Cynulliad. Dylai eiddo gael ei hysbysebu ar werth ar y farchnad agored a'i waredu am y pris 'gorau y gellir ei gael o fewn rheswm'.

**Alun Cairns:** Pa gysylltiadau sy'n bodoli rhwng nifer y swyddogion a gyflogir a'r praeseptau plismona a gynhwysir ym miliau cyffredinol y dreth gyngor, yn benodol gyda dadansoddiad ym Mro Morgannwg? (WAQ45805)

**Sue Essex:** Dim ond un o lu o ffactorau sy'n effeithio ar lefel praesept yr heddlu o fewn awdurdod yw nifer y swyddogion a gyflogir. Mae'r ffactorau eraill yn cynnwys y lefel o gymorth canolog o du'r Cynulliad a'r Swyddfa Gartref, egwyddorion plismona a phwysau eraill o ran costau.

**Lisa Francis:** Faint y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei wario ar hysbysebu'r ymgyrch 'Cut Your Council Tax'? (WAQ45813)

**Sue Essex:** Dim. Yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn ysgwyddo'r costau i gyd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gomisiynu hysbysebion papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Cut Your Council Tax'? (WAQ45814)

**Sue Essex:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn comisiynu hysbysebion papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Cut Your Council Tax'. Caniataodd yr adran i Lywodraeth Cynulliad Cymru rannu'r ymgyrch yn y cyfryngau heb unrhyw gost.

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fesur pa mor effeithiol y bu'r hysbysebion papur newydd ar gyfer yr ymgyrch 'Cut Your Council Tax'? (WAQ45815)

**Sue Essex:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am yr ymgyrch a mater i'r adran yw hwn yn bennaf. Bydd yn cynnal ei gwerthusiad ei hun o effeithiolrwydd yr ymgyrch.

Yr ydym yn cael trafodaethau o fewn y gweithgor budd-dal treth gyngor am adborth yn ymdrin ag effeithiolrwydd yr holl ymgyrchoedd diweddar a'r niferoedd sy'n manteisio ar fudd-dal treth gyngor ac, wrth gwrs, byddwn yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn unol â hynny.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y mae'r hysbysebion papur newydd ar gyfer 'Cut Your Council Tax' yn cynnig gwerth da am arian? (WAQ45816)

**Sue Essex:** Gan mai'r Adran Gwaith a Phensiynau sydd wedi ariannu'r ymgyrch, mater iddi hi yw asesu'r goblygiadau gwerth am arian.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r penderfyniad i ddiddymu'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru? (WAQ40958)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r galwadau am ymchwiliad cyhoeddus llawn i farwolaeth y plentyn 10 mlwydd oed, Robbie Powell? (WAQ40960)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r penderfyniad i symud gwasanaethau niwrolawdriniaeth bediatrig o Abertawe i Gaerdydd? (WAQ40962)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â phenderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i beidio ag ymyrryd â'r gwaith o redeg y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd? (WAQ40967)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â phenderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i beidio ag ymyrryd â'r gwaith o redeg y gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent? (WAQ40968)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â chyhoeddi cyfraddau heintio MRSA mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ40969)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y cyn-Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dr Kim Howells AS yn ymwneud ag amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru ym mis Chwefror 2004? (WAQ40975)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Jon Owen Jones AS yn ymwneud ag achos Mrs Theresa Debono? (WAQ40976)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y cyn-Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r holl ASau Llafur yng Nghymru yn ymwneud ag amseroedd aros y GIG? (WAQ40977)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau iechyd yn ymwneud â'r prinder deintyddion GIG yng Nghymru? (WAQ40984)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydliadau iechyd yn ymwneud ag amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ41001)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidog Plant y DU, Mrs Margaret Hodge AS, yn ymwneud â rôl Comisiynydd Plant Cymru? (WAQ41002)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio'r sector preifat i ostwng amseroedd aros mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ41004)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio ysbytai yn Lloegr i ostwng amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru? (WAQ41005)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â defnyddio ysbytai tramor i ostwng amseroedd aros yn y GIG yng Nghymru? (WAQ41006)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidog Plant y DU, Mrs Margaret Hodge AS, yn ymwneud â rôl Comisiynydd Plant Cymru? (WAQ41020)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ41024) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Rhodri Glyn Thomas:** A fydd y Gweinidog yn cynnal ymchwiliad i'r adroddiadau ynghylch pryderon am ddiogelwch cleifion yn ysbyty'r Eglwys Newydd, ac a fydd yn cyhoeddi'r holl wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, yn ogystal â'r wybodaeth sydd ganddo eisoes ar y mater hwn? (WAQ41424)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law, ers mis Hydref 2004, oddi wrth y Byrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â'r setliad ariannol i ymddiriedolaethau ysbytai ledled Cymru? (WAQ42076)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** O ran yr ymchwiliad mewnol i achos Robbie Powell, y cyfeiriwyd ato yn eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill 2005, a wnaiff y Gweinidog ryddhau dogfennau sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, pwy a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad mewnol, beth oedd y cyfyngiadau amser, i bwy y cyflwynwyd yr adroddiad, i bwy oedd yr adroddiad ar gael, canfyddiadau'r ymchwiliad ac ati? (WAQ42704)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer y a) meddygon teulu, b) ymgynghorwyr ysbyty, c) nyrsys, d) bydwragedd, e) therapyddion, f) rheolwyr ac g) staff gweinyddol a recriwtiwyd i'r gwasanaeth iechyd yn ystod 2005, ac a wnaiff roi manylion ynghylch beth yw canran y cynnydd hwn? (WAQ45713)

**Brian Gibbons:** Ni fydd gwybodaeth am nifer y meddygon teulu, ymgynghorwyr ysbyty, nyrsys, bydwragedd, therapyddion, rheolwyr a staff gweinyddol a recriwtiwyd i'r gwasanaeth iechyd yn ystod 2005 ar gael tan yn hwyrach yn 2006.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer yr ysbytai a) a agorwyd a b) a gaewyd ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ45714)

**Brian Gibbons:** Ysbytai a gaewyd ac a agorwyd rhwng 1999-2005

| Blwyddyn | Ysbytai a gaewyd *gweler y nodiadau isod | Ysbytai a agorwyd * gweler y nodiadau isod |
|---|---|---|
| 1999-2000 | 4 | 1 |
| 2000-01 | 6 | 1 |
| 2001-02 | 2 | 1 |
| 2002-03 | 2 | 1 |
| 2003-04 | 5 | 3 |
| 2004-05 | 5 | 1 |

Nodiadau:

1. Mae rhai dyddiadau'n cyfeirio at ddyddiad gwaredu yn hytrach na dyddiad cau.
2. Mae 16 o'r 24 o gyfleusterau ysbyty a gaewyd wedi cael eu hailddarparu mewn datblygiadau newydd ar safleoedd ysbyty presennol e.e. ysbyty gofal canser yn Ysbyty Glan Clwyd, unedau iechyd meddwl newydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Wrecsam Maelor.
3. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am ddyddiad agor ysbytai gan nad oes gwybodaeth yn cael ei darparu fel mater o drefn gan yr ymddiriedolaethau—amcangyfrifir y ffigurau o wybodaeth sydd wedi'u seilio ar ddyddiadau cau.
4. Mae cleifion anabledd dysgu wedi cael eu hailgartrefu mewn unedau preswyl a godwyd yn bwrpasol—nid yw'r rhain wedi cael eu dosbarthu'n ysbytai ac nid ydynt felly wedi'u cynnwys yn y golofn 'ysbytai a agorwyd'.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer yr ysbytai a dderbyniodd gefnogaeth menter cyllid preifat, ac a wnaiff fanylu ar gyfer pob prosiect a) cyfanswm cost pob prosiect, b) cost flynyddol yr ad-daliad ac c) hyd yr ad-daliad? (WAQ45715)

**Brian Gibbons:** Yr ydym wedi cael tri ysbyty PFI yng Nghymru hyd yma, sef Castell-nedd Port Talbot, Dewi Sant, Caerdydd a Chas-gwent. Mae'r manylion a geisir yn y cwestiwn yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon cyhoeddedig blynyddol pob ymddiriedolaeth GIG a rhoddir crynodeb ohonynt yn y tabl isod.

Mae'r cyfrifon cyhoeddedig yn rhoi crynodeb byr iawn o'r wybodaeth sy'n seiliedig ar y contractau manwl y mae pob ymddiriedolaeth wedi ymrwymo iddynt gyda'r sector preifat.

Dylid nodi bod yr ad-daliadau blynyddol a ddyfynnir yn y cyfrifon yn cynnwys tâl argaeledd am yr eiddo ynghyd â thâl am ddarparu gwasanaethau cymorth i'r corff GIG o dan y contract. Byddai gofyn cael y manylion pellach y tu ôl i'r taliadau cytundebol hyn oddi wrth yr ymddiriedolaethau unigol gan nad ydynt yn cael eu dal yn ganolog gan y Cynulliad.

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **Bro Morgannwg** | **Caerdydd a'r Fro** | **Gofal Iechyd Gwent** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbyty** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Dewi Sant** | **Cas-gwent** | |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cost Lawn | 66,000 | 13,847 | 10,000 | **89,847** |
| Ad-daliad Blynyddol | 11,602 | 2,842 | 1,511 | **15,955** |
| Hyd y cynllun | 30 blynedd | 31 blynedd | 27 blynedd | |

**Lynne Neagle:** Sawl cais am sgan tomograffeg allyriad positron a dderbyniodd Comisiwn Iechyd Cymru dros y 3 blynedd diwethaf, faint o'r ceisiadau hynny a gymeradwywyd, a faint a wrthodwyd? (WAQ45716)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn ystyried ceisiadau am sganiau tomograffeg allyriad positron (PET) yn erbyn polisi comisiynu y cytunwyd arno gan ei Fwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gomisiynu. Mae'r polisi wedi ei seilio ar dystiolaeth o effeithiolrwydd clinigol ac mae'n sicrhau bod mynediad at sganiau PET yn canolbwyntio ar y rhai y mae lefel uchel o dystiolaeth eu bod yn effeithiol iddynt a'u bod yn effeithio ar y driniaeth a gynigir.

Dros y tair blynedd diwethaf mae'r niferoedd fel a ganlyn:

| **Blwyddyn** | **Cymeradwywyd** | **Gwrthodwyd** |
|---|---|---|
| 2003-04 | 10 | 0 |
| 2004-05 | 154 | 8 |
| 2005-06 | 300 | 16 |

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion amseroedd aros cleifion mewnol ac allanol ar gyfer triniaeth am glawcoma a chataractau, fesul Ymddiriedolaeth GIG, ar gyfer y 3 blynedd ddiwethaf? (WAQ45717)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog am y rhestrau aros ar gyfer triniaeth am glawcoma a'r rhestrau aros cleifion allanol am gataractau. Mae gwybodaeth am y nifer o gleifion sydd ar restr aros am apwyntiad offthalmoleg fel cleifion allanol neu sy'n disgwyl i gael eu derbyn fel cleifion mewnol neu achosion dydd ar gael ar StatsCymru (www.statscymru.cymru.gov.uk).

Mae gwybodaeth am nifer y cleifion sydd wedi aros dros bedwar mis a chwe mis am lawdriniaeth cataract fel cleifion mewnol a chleifion dydd hefyd ar gael ar StatsCymru. Darperir ffigurau am bob mis o fis Mehefin 2003 i fis Rhagfyr 2005.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau sy'n cael eu datblygu ar gyfer pobl gydag epilepsi? (WAQ45718)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella safonau gofal a lleihau'r amrywiadau yn iechyd a lles pobl sydd ag epilepsi a chyflyrau niwrolegol cysylltiol. Mae canllawiau datblygu gwasanaeth ar gyfer epilepsi yn cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o raddol weithredu 'Cynllun Oes'. Rhagwelir y caiff y rhain eu cyhoeddi yn hydref 2006.

Mae'r contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol wedi sefydlu dangosyddion ansawdd i helpu i wella ansawdd y gofal i bobl sydd ag epilepsi. Nod y rhain yw sefydlogi'r cyflwr a helpu pobl i fyw bywyd heb ffitiau lle bo hynny'n bosibl. Mae un pwynt ar bymtheg ar gael i feddygon teulu am ofal epilepsi o dan y contract newydd.

Mae canllawiau datblygu a chomisiynu gwasanaethau hefyd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i bobl ag epilepsi. Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y llwybr gofal gan gynnwys materion diagnosio, asesu, trin, rheoli a hwyluso annibyniaeth. Mae'r gwaith hefyd yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiad strategol o wasanaethau niwrolegol yng Nghymru, sy'n rhoi sylw i faterion niwrolawdriniaeth a byw gyda chyflyrau niwrolegol tymor hir yng Nghymru.

**Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith taliadau arian a roddir i gleifion gan gwmnïau a chymdeithasau gofal iechyd ar gyfer pob diwrnod a dreulir yn ysbytai'r GIG ar hyd arosiadau mewn ysbytai? (WAQ45726)

**Brian Gibbons:** Nid oes asesiad o'r fath wedi cael ei wneud, gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog. Mater o farn glinigol ar ran y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd hynny sy'n gofalu am y claf dan sylw fyddai pa mor hir mae claf yn aros yn yr ysbyty.

**Nick Bourne:** Faint o staff a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Abertawe sydd ar hyn o bryd yn absennol yn yr hirdymor o'r gwaith oherwydd salwch? (WAQ45728)

**Nick Bourne:** Pa ganran o staff Ymddiriedolaeth GIG Abertawe sydd ar hyn o bryd yn sâl yn yr hirdymor ac sy'n absennol oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen? (WAQ45729)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn defnyddio'r systemau gwybodaeth gweithlu sydd ar waith gan y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau yng Nghymru. Nid yw'r system hon yn gwahaniaethu rhwng salwch tymor hir a thymor byr, ac nid yw'n darparu adroddiadau am y gwahanol fath o absenoldeb salwch. Dywed yr ymddiriedolaeth y byddai angen casglu gwybodaeth oddi wrth ei gwahanol adrannau, gwaith llaw a fyddai'n cymryd sawl diwrnod.

**Nick Bourne:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â chlefyd Alzheimer yng Nghymru? (WAQ45732)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau ar gyfer dementia, sy'n cynnwys clefyd Alzheimer.

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Mae hwn yn nodi'r safonau cenedlaethol a chynllun gweithredu er mwyn eu cyflawni mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn, yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.

Nod y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yw:

- lleihau'r risg o dementia drwy hybu ffyrdd egnïol o fyw yn feddyliol ac yn gorfforol, osgoi camddefnyddio alcohol a diffyg fitaminau a ffactorau risg fasgwlaidd;
- hybu diagnosio dementia mewn da bryd ym maes gofal sylfaenol a sicrhau mynediad cyflym at arbenigwr i gael asesiad a gwasanaethau (e.e. clinigau cof). Mae hyn yn cynnwys adnabod symptomau dementia yn well mewn oedolion iau;
- sicrhau bod gwasanaethau integredig ar gael i gynorthwyo pobl sydd â dementia a'u gofalwyr/teuluoedd—gwasanaethau yn y gymuned lle bo hynny'n briodol, ynghlwm wrth feddygon teulu a gwasanaethau arbenigol;
- sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwrio ar gael i ateb anghenion penodol pobl iau sydd â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r prosiect Nyrsys Admiral—nyrsys gofal dementia arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned gyda theuluoedd a gofalwyr pobl sydd â dementia;
- hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i helpu pobl hŷn sydd â dementia i fyw gartref lle bo hynny'n briodol;
- hyrwyddo rôl y sector gwirfoddol yn cynorthwyo pobl sydd â dementia a'u gofalwyr;
- sicrhau bod darpariaeth gofal tymor hir ar gael i bobl â dementia.

Gallaf eich sicrhau fy mod am i bob claf sydd â chlefyd Alzeihmer, a'u gofalwyr, gael gofal a chymorth seiliedig ar dystiolaeth o'r ansawdd gorau un. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ganllawiau ar ddefnyddio'r cyffuriau sydd ar gael ar gyfer clefyd Alzeihmer yn 2001, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae NICE yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth roi canllawiau cryf a gwerthfawr i'r GIG ar ddefnyddio meddyginiaethau a thriniaethau newydd a'r rhai presennol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith nad yw cyffuriau sy'n gallu oedi dirywiad pobl â chlefyd Alzheimer yn fawr, megis Aricept, Exelon a Reminyl, ar gael i ddioddefwyr yng Nghymru? (WAQ45733)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddodd NICE ganllawiau ar y cyffuriau hyn yn 2001 gan argymell eu defnyddio wrth drin achosion ysgafn i ganolig o glefyd Alzeihmer yng Nghymru a Lloegr. Mae NICE wrthi yn adolygu'r canllawiau hynny ar hyn o bryd ac mae'r canfyddiadau dros dro yn codi amheuon am effeithiolrwydd clinigol a chost effeithiolrwydd y cyffuriau hyn. Fodd bynnag, daeth tystiolaeth newydd i'r amlwg a awgrymai y gallai'r cyffuriau fod yn effeithiol i rai grwpiau o gleientiaid. Penderfynodd NICE gyhoeddi dogfen ymgynghori am yr arfarniad diwygiedig yn argymell y dylai'r cyffuriau hyn barhau i gael eu rhagnodi i gleifion sydd â chlefyd Alzheimer ar lefel ganolig.

Mae NICE wedi gofyn am ymatebion i'w ddogfen ddiwygiedig erbyn 13 Chwefror ac mae'n bwriadu cyhoeddi ei ganllawiau terfynol erbyn mis Gorffennaf eleni. Tan hynny, mae canllawiau gwreiddiol NICE oddi ar 2001 yn dal mewn grym.

**Helen Mary Jones:** Ar gyfer pob ardal BILl (Bwrdd Iechyd Lleol); pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn nhriniaeth lymffoedema cychwynnol a lymffoedema nad yw'n ganser? (WAQ45739)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwasanaethau lymffoedema, y materion capasiti. Cynhyrchwyd adroddiad Cymru gyfan ar wasanaethau lymffoedema gan y grŵp cyd-drefnu gwasanaethau canser, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2003, i gynorthwyo'r byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG a'r tri rhwydwaith canser i gomisiynu a chyflenwi'r gwasanaethau hyn. Gyda'r cyfyngiadau caeth ar adnoddau ariannol a blaenoriaethau taer eraill, gwn nad yw'r BILlau wedi ei chael hi'n hawdd rhoi sylw i holl argymhellion y grŵp. Serch hynny, mae'r rhain yn wasanaethau pwysig ac yr wyf yn disgwyl i'r BILlau a'r ymddiriedolaethau gydweithredu i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon ac effeithiol. Fel rhan o'i rhaglen waith 2005-06, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i'r grŵp cyd-drefnu gwasanaethau canser geisio adroddiadau diweddaru gan y rhwydweithiau canser yn nodi eu cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad y grŵp. Rhydd hyn well dealltwriaeth inni o'r hyn sydd wedi gwella a beth y mae angen rhoi sylw iddo o hyd.

**David Lloyd:** Ar gyfer pob ardal BILl (Bwrdd Iechyd Lleol); a wnaiff y Gweinidog roi manylion am (i) nifer (ii) mathau o lety, a (iii) ystod y driniaeth, gyda golwg ar gleifion seiciatrig ifanc hirdymor? (WAQ45740)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth am y niferoedd, y mathau o lety a'r triniaethau yn cael ei dal yn ganolog. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol, yr awdurdodau lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru yw comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu y dylai'r BILlau ddod ynghyd i greu rhwydweithiau comisiynu o dan y strategaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed fel yr amlinellwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2003) 063.

Prif dasg rhwydweithiau comisiynu'r strategaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed yw sicrhau, mewn perthynas â gwasanaethau haen 2 a 3 yn arbennig, fod cynlluniau comisiynu byrddau iechyd lleol pob rhanbarth, a rhai Comisiwn Iechyd Cymru, yn dod ynghyd i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar y ffordd y cyflenwir gwasanaethau gan bob un o ddarparwyr allweddol y rhanbarth.

Ymdrinnir ag iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth. Mae'r fframwaith gwasanaeth yn cynnwys camau gweithredu allweddol penodol a mesuradwy er mwyn cyflenwi gwasanaethau amlasiantaethol ar draws haenau 1 i 4 sy'n cyfateb yn agos i'r strategaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed, 'Busnes Pawb'.

Dywed y fframwaith gwasanaeth fod pobl ifanc y mae angen gwasanaethau parhaus arnynt, megis y rhai sydd â salwch neu anhwylderau meddyliol parhaus, yn cael cynnig ystod o wasanaethau amlasiantaethol a gyd-drefnir, yn unol â'u hanghenion fel y'u haseswyd, er mwyn gallu camu'n effeithiol o blentyndod i'w bywydau fel oedolion.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd y cynllun gweithredu cyhyrysgerbydol ac arthritis a'r amserlen ar gyfer ei gyhoeddi? (WAQ45741)

**Brian Gibbons:** Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gwblhau drafft cyntaf dogfen Cymru gyfan i gyflyrau arthritis a chyhyrysgerbydol. Yr ydym yn rhagweld y caiff y ddogfen ei lansio ar gyfer ymgynghoriad tri mis â'r cyhoedd ym mis Mawrth 2006.

**Lisa Francis:** Pryd wnaeth y Gweinidog gyfarfod ddiwethaf â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i drafod sut y gall Cymru a Lloegr ddysgu oddi wrth ei gilydd o ran lleihau amserau aros? (WAQ45749)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cael cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd eto. Fodd bynnag, yr wyf wedi bod i gyfarfodydd eraill lle'r oedd cyfleoedd i drafod materion o ddiddordeb cyffredin gyda gweinidogion iechyd o bob rhan o'r DU.

**Lisa Francis:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd am ei chynlluniau diweddaraf i wneud gofal iechyd yn Lloegr yn fwy agored? (WAQ45750)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd am y mater hwn eto.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru pob trafodaeth y mae ef wedi'i chael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ers iddo gael ei benodi ym mis Ionawr 2005? (WAQ45751)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda Gweinidogion yn yr Adran Iechyd, ond nid â'r Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, yr wyf yn gohebu â'r Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ynghylch effaith ponciau arafu ar amseroedd ymateb ambiwlansys a diogelwch a lles y cleifion? (WAQ45752)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi siarad yn uniongyrchol ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am effaith ponciau arafu ar amseroedd ymateb ambiwlansys a diogelwch cleifion. Deallaf fod yr ymddiriedolaeth yn cefnogi mesurau tawelu traffig er mwyn lleihau gwrthdrawiadau ar y ffyrdd. Pan fydd y gymuned yn ymgynghori â hi, rhaid i'r ymddiriedolaeth werthuso pob datblygiad ar ei haeddiant unigol, gan gymryd i ystyriaeth fanteision tawelu'r ffyrdd o'u cymharu â chysur y cleifion a'r cerbydau.

**Lisa Francis:** Beth oedd cyfanswm cost yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar ddyfodol ysbytai cymunedol Blaenau Ffestiniog a Thywyn? (WAQ45770)

**Brian Gibbons:** Mae cost yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd yn ddiweddar ar ddyfodol ysbytai cymunedol Blaenau Ffestiniog a Thywyn fel a ganlyn:

| | **Cost** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Paratoi, hwyluso ac adroddiadau | £16,250 |
| Argraffu'r dogfennau ymgynghori | £2,263 |
| Hysbysebion radio | £352 |
| Llogi canolfannau a systemau sain (amcangyfrif) | £600 |
| Cyfieithu | £4,425 |
| **Cyfanswm** | **£23,890** |

**D.S.**
Nid yw'r costau a nodwyd uchod yn cynnwys costau amser, gweinyddu a theithio swyddogion y BILl.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r codiadau blynyddol canrannol diweddaraf ar gyfer a) rheolwyr a gweinyddwyr b) nyrsys c) bydwragedd a d) doctoriaid GIG Cymru ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru? (WAQ45771)

**Brian Gibbons:** Nid oes data ar wahân yn cael ei ddal yn benodol am bob BILl, dim ond am y BILlau fel cyfanswm.

Ym mis Medi 2003, yr oedd y BILlau (heb gynnwys Powys) yn cyflogi 715 o bobl. Ym mis Medi 2004 yr oeddynt yn cyflogi 920, cynnydd o 29 y cant er mis Medi 2003. Mae'r aelodau staff hyn yn cynnwys nyrsys, staff gwyddonol, staff therapiwtig, rheolwyr, gweinyddwyr a staff clercol.

Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys staff meddygol. Ym mis Medi 2003 yr oedd 26 aelod staff meddygol yn gyflogedig a newidiodd hyn i 28 ym mis Medi 2004. Yr oedd mwyafrif helaeth yr aelodau staff meddygol hyn yn cael eu cyflogi gan y BILlau ar sail ran-amser.

**Lisa Francis:** Beth oedd cost y 'gweithdai' a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar ddyfodol ysbytai cymunedol Blaenau Ffestiniog a Thywyn? (WAQ45772)

**Brian Gibbons:** Mae cost y 'gweithdai' a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ar ddyfodol ysbytai cymunedol Blaenau Ffestiniog a Thywyn fel a ganlyn:

| | **Cost** |
|---|---|
| Hwyluso a chyd-drefnu sylwadau | £4,450 |
| Hysbysebion radio | £352 |
| Llogi canolfannau a systemau sain (amcangyfrif) | £600 |
| Cyfieithu | £3,274 |
| **Cyfanswm** | **£8,676** |

**D.S.**
Nid yw'r costau a nodwyd uchod yn cynnwys costau amser, gweinyddu a theithio swyddogion y BILl.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y cleifion a gafodd le gyda deintydd gwasanaethau deintyddol preifat i) nad oedd gynt wedi eu cofrestru gyda deintydd GIG, a ii) a drosglwyddwyd oddi ar restr deintydd GDS GIG? (WAQ45773)

**Brian Gibbons:** Mae 125 o gynlluniau gwasanaethau deintyddol preifat (PDS) peilot wedi cael eu cymeradwyo, a byddant yn darparu 154,480 o leoedd GIG ychwanegol. Bydd y rhain ar gyfer cleifion nad ydynt wedi cofrestru am ofal deintyddol o dan y GIG ar hyn o bryd. Mae'r lleoedd ychwanegol hyn yn cael eu cynnig wrth i ymarferwyr weithredu'r cynnydd o ran capasiti o dan delerau ac amodau eu contractau. Mae'r cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo wedi sicrhau darpariaeth GIG i 522,480 o gleifion sydd wedi symud ar draws o drefniadau GDS i PDS.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog nod cyfanswm i) y dyraniad a ii) y gwariant ar wasanaethau deintyddol GIG? (WAQ45774)

**Brian Gibbons:** O dan y trefniadau cyfredol nid oes dyraniadau penodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol GIG. Telir y gwariant o gyllideb y Cynulliad na chyfyngir ar yr arian ynddi, cyllideb sy'n ymateb i'r galw. Yn 2004-05 yr oedd y cyfanswm gwariant net ar ddeintyddiaeth GIG o'r gyllideb na chyfyngir ar yr arian ynddi yn £81 miliwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am statws ymwrthodiadau o ran rhagnodi meddyginiaethau nas rhestrir? (WAQ45775)

**Brian Gibbons:** Os yw rhagnodwr o'r farn ei bod yn briodol yn glinigol rhagnodi cyffur anhrwyddedig neu ddidrwydded, dylai roi gwybod i'r claf am statws y cyffur, y rhesymau am y statws hwnnw, ac unrhyw sgil effeithiau hysbys. Gallai fod yn briodol cael cydsyniad ysgrifenedig cyn dechrau ar y driniaeth. Nid yw'n briodol defnyddio ymwrthodiadau.

**Lisa Francis:** Sawl cartref gofal a gaeodd yng Nghymru er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog ddadansoddi'r ffigurau hyn ar gyfer pob etholaeth yng Nghymru? (WAQ45812)

**Brian Gibbons:** Mae newidiadau yn y diffiniad cyfreithiol o gartrefi gofal gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, datblygiadau gwasanaeth megis datgofrestriadau yn sgil sefydlu datblygiadau tai â chymorth, a newidiadau yn y ffordd y caiff cartrefi bach eu cyfrif yn gwneud gwybodaeth o'r math hwn yn annibynadwy. Pan gaiff cartref ei werthu mae hefyd yn cau yng ngolwg y gyfraith ond efallai na fydd yn rhoi gorau i ddarparu'r un gwasanaeth o dan berchenogaeth newydd.

Gyda'r cafeatau sylweddol hyn mewn golwg, darperir y ffigurau canlynol, sy'n dangos y nifer o gartrefi gofal cofrestredig yng Nghymru yn 2000 a 2005. Nid oes data cyflawn am 1999 ar gael oherwydd problemau gyda'r data am gartrefi nyrsio. Nid oes dadansoddiad yn ôl etholaeth ar gael. Dangosir y ffigurau ar lefel yr awdurdodau lleol am 2000 ond dim ond yn ôl rhanbarthau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru y maent ar gael am 2005.

| ***Awdurdod Lleol*** | **Pob cartref gofal 2000 (a)** | **Swyddfa Ranbarthol** | **Pob cartref gofal 2005 (b)** |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | **97** | **Caerdydd** | **99** |
| **Powys** | **49** | **Canolbarth Cymru** | **62** |
| Sir Ddinbych | 93 | | |
| Sir y Fflint | 42 | | |
| Wrecsam | 58 | | |
| **Y Gogledd-ddwyrain** | **193** | **Y Gogledd-ddwyrain** | **168** |
| Ynys Môn | 37 | | |
| Gwynedd | 62 | | |
| Conwy | 142 | | |
| **Y Gogledd-orllewin** | **241** | **Y Gogledd-orllewin** | **221** |
| Caerffili | 57 | | |
| Blaenau Gwent | 20 | | |
| Tor-faen | 34 | | |
| Sir Fynwy | 32 | | |
| Casnewydd | 47 | | |
| **Y De-ddwyrain** | **190** | **Y De-ddwyrain** | **205** |
| Abertawe | 119 | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 59 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 51 | | |
| **Y De-orllewin** | **229** | **Y De-orllewin** | **196** |
| Bro Morgannwg | 52 | | |
| Rhondda Cynon-taf | 71 | | |
| Merthyr Tudful | 19 | | |
| **Y Fro a'r Cymoedd** | **142** | **Y Fro a'r Cymoedd** | **112** |
| Ceredigion | 38 | | |
| Sir Benfro | 70 | | |
| Sir Gaerfyrddin | 102 | | |
| **Gorllewin Cymru** | **210** | **Gorllewin Cymru** | **202** |
| **Cymru** | **1351** | **Cymru** | **1265** |

(a) Heb gynnwys cartrefi bach a gofrestrwyd i lai na phedwar preswylydd.
(b) Yn cynnwys cartrefi gofal o bob maint.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau dialysis yr arennau sydd ar gael mewn ysbytai cymunedol? (WAQ45819)

**Brian Gibbons:** Mater i Gomisiwn Iechyd Cymru yw'r ddarpariaeth dialysis yr arennau, yn cynnwys unrhyw wasanaethau a allai gael eu darparu mewn ysbytai cymuned. Mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin cyhoeddi datganiad polisi drafft at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd. Datganiad yw hwn am fynd i'r afael â chlefyd yr arennau yng Nghymru a fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, sy'n nodi safonau gofal i'r rhai sydd â chlefyd ar yr arennau neu fod risg iddynt ddatblygu hynny. Bydd angen i'r gwaith o gynllunio, trefnu a chyflenwi gwasanaethau'r arennau, yn cynnwys dialysis, adlewyrchu gofynion ein nodau polisi a'r safonau gofal.

**Michael German:** A yw'r swm o £5 miliwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd fis Ebrill y llynedd i dreialu'r cynllun gwasanaethau deintyddol personol yn ychwanegol at y cyllid cyfredol sydd wedi'i glustnodi ar gyfer triniaeth ddeintyddol o dan y GIG yng Nghymru? (WAQ45820)

**Brian Gibbons:** Yr oedd y £5 miliwn a gyhoeddais y llynedd ar gyfer graddol gyflwyno cynlluniau gwasanaethau deintyddol personol yn ddyraniad ychwanegol ar wahân, nad yw'n ddyraniad rheolaidd. Mae £15 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu hefyd i'r gyllideb deintyddiaeth GIG ar gyfer 2006-07. Mae'r adnoddau ariannol ychwanegol hyn wedi cynyddu cyfraniad y gyllideb na chyfyngir ar yr arian ynddi, sy'n cael ei dal yn ganolog, sy'n cyfateb i lefel lawn gwariant deintyddol 2005-06.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog nodi pwy sy'n gyfrifol am gost llawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar y funud olaf oherwydd nad oes gwelyau ar gael, a oedd i fod i gael eu cynnal yn Lloegr? (WAQ45821)

**Brian Gibbons:** Mae cleifion o Gymru yn cael eu trin mewn ysbytai yn Lloegr fel rhan o'r comisiynu gwasanaethau arferol gan ddarparwyr GIG a thrwy'r cynllun ail gynnig. Seilir y comisiynu ar y nifer o lawdriniaethau a gyflawnir felly byddai unrhyw gostau canslo yn cael eu hysgwyddo gan yr ymddiriedolaeth dan sylw yn Lloegr.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o Herceptin i drin canser y fron yng Nghymru? (WAQ45822)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen ar gyfer pryd y bydd Herceptin yn debygol o fod ar gael yng Nghymru? (WAQ45823)

**Brian Gibbons:** Rhaid i bob cyffur gael ei drwyddedu'n ffurfiol er mwyn iddo gael ei ddefnyddio gan y GIG. Mae'r broses drwyddedu hon yn bod i amddiffyn y cyhoedd drwy sicrhau bod cyffuriau newydd yn ddiogel i gael eu rhagnodi. Mae'n hanfodol fod yr holl wybodaeth dechnegol a'r dystiolaeth berthnasol yn cael eu hystyried cyn trwyddedu meddyginiaeth newydd oherwydd gallai camgymeriadau gael effeithiau niweidiol iawn, nad oes modd eu rhagweld, ar y cleifion hynny y caiff ei rhagnodi iddynt. Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Asiantaeth Gwerthuso Meddyginiaethau Ewropeaidd sy'n gwneud y gwaith trwyddedu.

Ar hyn o bryd mae trastuzumab wedi ei drwyddedu yng Nghymru a Lloegr i'w ddefnyddio mewn canser y fron sydd wedi datblygu'n helaeth yn unig. Ym mis Gorffennaf 2005, gofynnwyd i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), sef y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu canllawiau cenedlaethol ar hybu iechyd da ac atal a thrin afiechyd, fwrw ymlaen yn gyflym â'i asesiad o trastuzumab i drin canser y fron sydd yn y cyfnodau cynnar. Bydd hyn yn galluogi NICE i fod mewn sefyllfa i gynhyrchu canllawiau yn gyflym pan fydd y penderfyniadau trwyddedu gan MHRA wedi cael eu gwneud. Pan gyhoeddir hwy, bydd y canllawiau hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr fel ei gilydd. Bydd yn rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol yng Nghymru gyflwyno'r canllawiau o fewn yr un amserlen â Lloegr. Bydd hyn yn dileu unrhyw 'loteri cod post' o ran arferion rhagnodi.

Os caiff trastuzumab ei drwyddedu i gael ei ddefnyddio yng Nghymru ar gyfer canser y fron yn ei gyfnodau cynnar, dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd bod cleifion yn gallu cyrchu'n ddiymdroi at y driniaeth. Bydd grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn cyflwyno canllawiau i'r GIG yn fuan iawn ar gynllunio ar gyfer gweithredu'r cyffur hwn os caiff ei drwyddedu i'w ddefnyddio mewn achosion cynnar o ganser y fron a'i gymeradwyo'n gadarnhaol gan NICE.

Yn y cyfamser, nid oes dim i atal clinigwyr unigol rhag rhagnodi cyffur didrwydded. Fodd bynnag, byddai angen iddynt hwy, yr ymddiriedolaeth sy'n eu cyflogi a'r bwrdd iechyd lleol ystyried yn ofalus iawn anghenion clinigol y claf unigol, y dystiolaeth sydd ar gael am y cyffur a'r materion diogelwch ac atebolrwydd. Mae pryderon ynglŷn â diogelwch y claf o ran y cyffur neilltuol hwn. Penderfyniad clinigol i gael ei wneud gan yr oncolegydd unigol felly, mewn trafodaeth â'i glaf, yw'r penderfyniad i ragnodi trastuzumab, ac felly y dylai barhau, gan fod y materion yn ymwneud â diogelwch ac atebolrwydd yn golygu bod oncolegwyr unigol, a'r ymddiriedolaethau sy'n eu cyflogi, yn atebol eu hunain am y penderfyniadau a wnânt. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw bwerau i gyfarwyddo clinigwyr unigol i ragnodi cyffur neilltuol.

Mae gan y byrddau iechyd lleol ar rwydweithiau canser gogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru feini prawf ar lefel y rhwydwaith i ystyried ariannu trastuzumab mewn achosion cynnar o ganser o fron, ar gyfer cleifion unigol, lle mae oncolegydd unigol yn dymuno ei ragnodi. Mae rhwydwaith canser de-orllewin Cymru wrthi'n datblygu cyngor ffurfiol i'w BILlau ar y mater hwn ar hyn o bryd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ystyried caniatáu i gleifion yng Nghymru ddefnyddio Herceptin os byddant yn llofnodi llythyr hepgor i ddiogelu'r awdurdod iechyd rhag ymgyfreitha? (WAQ45824)

**Brian Gibbons:** Os yw rhagnodwr o'r farn ei bod yn briodol yn glinigol rhagnodi cyffur anhrwyddedig neu ddidrwydded, dylai roi gwybod i'r claf am statws y cyffur, y rhesymau am y statws hwnnw, ac unrhyw sgil effeithiau hysbys. Gallai fod yn briodol cael cydsyniad ysgrifenedig cyn dechrau ar y driniaeth. Nid yw'n briodol defnyddio ymwrthodiadau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ40945) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ohebiaeth â'r Post Brenhinol yn ymwneud â chau swyddfeydd post yng Nghymru? (WAQ40963)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth, gan gynnwys cofnodion, sgyrsiau ffôn a gofnodwyd, negeseuon e-bost, memos, llythyrau ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â thrafodaethau mewn perthynas â'r bwriad i newid enwau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Brenhinol Cymru? (WAQ41486) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol cyfrif cerdyn swyddfa'r post? (WAQ45719)

**Edwina Hart:** Cefais ohebiaeth â Gweinidogion y DU am gyfrif cerdyn swyddfa'r post pan sefydlwyd ef. Yn dilyn yr ansicrwydd a'r dyfalu yn y wasg dros yr wythnosau diwethaf am ddyfodol y cyfrif cerdyn, yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau i gael eglurhad ar y mater. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio pan fyddaf wedi cael ateb.

**Rhodri Glyn Thomas:** I ba raddau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd fel bod tenantiaid cyfredol ar restr drosglwyddo Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael blaenoriaeth o ran symud i ardal fwy dymunol, dros y bobl hynny sy'n symud i'r ardal? (WAQ45817)

**Edwina Hart:** Nid oes gan y Cynulliad bwerau i ymyrryd yng nghynlluniau dyrannu awdurdodau lleol fel bod tenantiaid presennol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n symud i'r ardal o ran symud i ardal fwy dymunol.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n dangos costau gweinyddol swyddfa'r Trefnydd, o flwyddyn i flwyddyn, ers i'r swydd gael ei chreu? (WAQ40946) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi dogfennau'n ymwneud â'r ddadl y penderfynwyd peidio â'i chynnal ar drefniant y seddi yn siambr y Cynulliad? (WAQ40964)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Yr wyf wedi trefnu bod copi o'r ymateb ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Adran yr Arglwydd Ganghellor ynghylch hyfforddiant cyfle cyfartal ac ymwybyddiaeth am anabledd i ynadon? (WAQ45745)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr Arglwydd Ganghellor yw'r mater hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid craidd ar gyfer grwpiau mynediad i'r anabl er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yng Nghymru? (WAQ45746)

**Jane Hutt:** Byddaf yn cadeirio cyfarfod ar 24 Mawrth, dan nawdd y Comisiwn Hawliau Anabledd ac Anabledd Cymru. Bydd rhan ohono yn canolbwyntio ar y beichiau cynyddol ar grwpiau mynediad i'r anabl sy'n deillio o'r gofynion ar i awdurdodau cyhoeddus gynnwys pobl anabl o dan y ddyletswydd newydd i hyrwyddo anabledd.

O ran cyllid yn fwy eang, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cyllid sylweddol i gefnogi gweithgareddau amryw o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl. Ar ben hynny, bydd sefydliadau yn gallu gwneud cais o dan gylch ymgeisio nesaf ein rhaglen 'cymunedau gweithredol' yr hydref hwn.